CLONC

www.clonc.co.uk

Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071

Rhifyn 261 - 50c
Mawrth 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Agor Neuadd Newydd

Tudalen 20

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 10

Gwefan Newydd Clonc

Tudalen 2

Eisteddfod Yr Ysgol Gyfun

Aelodau Tŷ Teifi yn dathlu buddugoliaeth yn Eisteddfod yr Ysgol (uchod), Owen Thomas (chwith) yn ennill y goron gyda Natalie Moore 3ydd ac Angharad Guy 2ail, a Siwan Davies (dde) yn ennill y gadair gyda Luned Mair yn ail a thrydydd.

www.clonc.co.uk

Gwefan newydd Papur Bro Clonc

Ddiwedd Ionawr eleni sefydlwyd gwefan newydd i bapur bro Clonc. Dyma ffenest siop Clonc nawr i'r byd a'r betws: www.clonc.co.uk Gall pobl o bell ac agos gadw cysylltiad â newyddion yr ardal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r wefan yn dathlu llwyddiant Clonc fel papur bro ac yn dangos y datblygiadau diweddaraf. Yn ogystal â hynny, mae'n ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol. Cyflwyna fanylion y rhifyn diweddaraf a rhestr o'r siopau sy'n gwerthu Clonc. Gallwch lawr lwytho ffurflen danysgrifio a ffurflen ymuno â Chlwb Clonc yn ôl eich dewis. Ceir manylion am brisau hysbysebu a'r dyddiadau allweddol i gyflwyno newyddion.

Mae'n wefan sy'n llawn lluniau hefyd yn dangos y broses o gynhyrchu Clonc gan gynnwys yr argraffu a'r plygu yn ogystal â'r gwerthu. Ceir lluniau o siopau'r ardal a'r siopwyr sy'n gwerthu Clonc.

Yn aml, mae pobl ifanc yn cael eu hannog i gadw copïau o Clonc er mwyn cyfeirio atynt wrth ysgrifennu traethawd neu brosiect, ond bellach gellir troi at y wefan hon er mwyn edrych ar hen rifynnau. Gellir gweld chwe rhifyn a gyhoeddwyd y llynedd ar fersiwn pdf. Y gobaith yw ychwanegu at hynny o flwyddyn i flwyddyn.

Gellir danfon ymholiad at Clonc yn ogystal â gadael sylwadau yn y Llyfr Gwesteion ar lein. Mae croeso i ddarllenwyr Clonc wneud hynny. Mae'n hawdd ysgrifennu'r neges a'i danfon ar wasgiad botwm. Fe gyhoeddir y sylwadau gyda'ch enw maes o law, wedi i'r gweinyddwr roi sêl bendith arnynt.

Mae yna dudalen o gysylltiadau gwe perthnasol hefyd. Gellir ychwanegu cysylltiadau eraill, dim ond i chi hysbysu Clonc. Byddai'n braf hefyd gweld cysylltiad â gwefan Clonc ar wefannau eraill. Os gallwch chi drefnu hynny, byddai'n cynyddu ymwybyddiaeth pobl o'r wefan ymhellach.

Pan fyddwch yn defnyddio'r we nesaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â www.clonc.co.uk a dweud wrth eraill amdani hefyd.

Mae Clonc yn un o bedwar papur bro sydd â gwefan. Fe welwch mai'r Dinesydd, Tafod Elai a Glo Mân yw'r papurau bro eraill sydd â phresenoldeb ar y we os ewch chi i ddefnyddio porwyr fel Gwgl neu Yahoo. Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk Papur Bro Glo Mân: http://gloman.blogspot.com Papur Bro Tafod Elai: www.tafelai.net Papur Bro Y Dinesydd: www.dinesydd.com

Dylan Lewis, Cadeirydd Clonc yw Gweinyddwr y Wefan, a darperir y gwasanaeth gyda chydweithrediad cwmnïoedd Recipero a BT. Maent yn darparu gwefannau yn rhad ac am ddim i grwpiau cymunedol www.communitykit.co.uk

Eisteddfod Papurau Bro

Mae Clonc yn chwilio am ddarllenwyr i gystadlu yn yr eisteddfod isod. A fyddai'n bosib i chi roi cynnig ar y cystadlaethau llenyddol a'u danfon i Swyddfa Antur Teifi, Llambed os gwelwch yn dda. Bydd bws yn gadael Llambed tua 6.15 ar y nos Iau 20fed Mawrth i fynd i'r eisteddfod. Ni chodir tâl bws na thâl mynediad. Noson o hwyl fydd hi a chyfle i ennill gwobrau i Clonc. Cysylltwch ag un o swyddogion Clonc i fynegi diddordeb, neu ffoniwch 01570 422349.



Arweinydd
Bnr. Ifan Gruffydd, Tregaron

Beirniad
Bnr. Dewi 'Pws' Morris,
Tresaith

Llenyddiaeth

Diarhebion
Paratoi 5 dihareb gyfoes

Slogan hysbysebu
Agored

Gorffen Limrig
Aeth Arthur i'r Co-op gyda whilber
I chwilio am rywbeth i swper
_____,
_____,
_____.

Llunio Brawddeg
Gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau P-A-P-U-R-A-U B-R-O

Llefaru

Darllen darn heb ei atalnodi

Adroddiad Digri
Agored

Stori Gelwydd
Agored

Dynwared
Unrhyw wleidydd amlwg o Gymru a'r Byd

Rheolau

Dyfarnir marciau ymhob cystadleuaeth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ddaw yn ail, ac 1 i'r trydydd.

Cyflwynir gwobr i'r papur bro sydd â'r cyfan-swm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu.

Deunydd Adran Lenyddiaeth i gyrraedd swyddfa Antur Teifi, 23 Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan erbyn Hanner Dydd, Mawrth 7fed.

Cystadlaethau llwyfan i gychwyn yn brydlon am 7 o'r gloch, Mawrth 20fed.

Gwobrau drwy garedigrwydd:

Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mawrth	Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca	480526
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Ebrill	Rhian Jones, Pan-têg, Pentrebach	422546
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llambed	422880

Beth yw beth?

Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Wyn, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llanbed	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan newydd Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Ddim yn blês â Swyddfa'r Post

Cyfeirio at yr un yn Llambed ydw i. Peidiwch â gofidio, cefnogwch yr ychydig swyddfeydd rhagorol sydd gennym ar ôl yng ngefn gwlad. Cewch wasanaeth personol a chyfle i gael eich copi o Clonc yn y rhan fwyaf ohonynt. Mae'r gwasanaeth yn treio'n galed i'n cael ni i ddefnyddio'r we ar gyfer talu biliau. Bil ffôn yn cynnig gostyngiad o dros £4.00 am dalu dros y we. Fedr llawer ddim gwneud hynny ac mae rhai ohonom yn dal yn hoffi bod yn hen – ffasiwn. Mwyaf tebyg nad fi yw'r unig un.

Mae'r pwysau gwaed yn dal i godi.

Do, cefais lawfeddygaeth ar fy nghalon, ac ody mae'r pwysau gwaed ganwaith yn well hyd nes y bydda i'n deialu ambell i rif ffôn a chlywed y neges Saesneg, "The person you are calling knows you are waiting." Faint callach ydw i o wybod hynny – pam yn y byd na chawn ni glywed y nodyn *engaged*? Beth yw pwrpas y dwli hyn – modd i BT wneud rhagor o arian trwy'n twyllo i obeithio y bydd y person ben draw'r ffôn yn cymryd trueni ac yn rhoi cyfle i ni ddod trwyddo.

Geiriau Ryan sy'n dod i'm meddwl "never in Europe". Dyma'r ail waith i fi sôn am hyn – y tro diwethaf fe gafodd perthynas i mi wared ar y neges! Tybed a fydd yr un llwyddiant y tro yma?

Ble mae'r fargen? Rydym i gyd yn meddwl fod yr archfarchnadoedd â phrisiau llawer is na'n siopau bach – gwledig neu drefol. Peidiwch â chymryd hynny'n ganiataol, gwnech nodyn o'r prisiau – tun yn costio bron 80 ceiniog mewn archfarchnad yng Nghaerfyrddin ac 20 ceiniog yn rhatach mewn siop yn y wlad. Maent yn gwneud sioe fawr o hysbysebu dyrnaid o nwyddau yn rhad ac yn gwthio prisiau nwyddau eraill yn uwch. Cofiwn y dywediad "Nid oes dim byd am ddim".

Yr oen cyntaf? Gweld llun ar dudalen flaen yn dangos rhywrai yn ymffrostio eu bod wedi cael yr ŵyn cyntaf eleni. Rwy'n sicr nad yw hynny'n hollol gywir gan fod ffermwyr heddiw yn cael ŵyn trwy gydol y flwyddyn. Ond efallai mai peidio â gweud gwell wrthynt sydd galla'.

Mae hyn yn fy atgoffa am wncwl o Sais wedi cael cwningen i ginio adeg y rhyfel ac yn troi at fy mam a dwud mai dyma'r ffowlyn gore yr oedd wedi'i flasu erioed. Modryb yn troi at mam ac yn dweud "paid â gweud gwell wrtho fe". Does dim byd drwg mewn celwydd bach diniwed weithie.

Enwau llefydd. Cefais sawl ymateb i'r esboniad am yr hen enw Werngabwd yn Clonc y mis diwethaf. Yna, wrth bori yn y gyfrol "The Place Names of Cardiganshire" gan Iwan Wmffre, cael cyfle i anghytuno ag un esboniad. Ei esboniad am 'Pwll-y-bilwg' yw mai 'billhook' yw'r bilwg. Ond yr esboniad a gefais i oedd mai tarddiad 'bilwg' yw 'bulwg' sef y blodyn a adweinir yn Saesneg fel y 'Corn cockle'- yn ôl Geiriadur yr Academi, pabi'r gwenith neu'r bulwg. Dal i fod yn ddiddorol!

CLONCYN

Dyddiadur

MAWRTH

5 Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd yn Neuadd Fawr.
8 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
12 Darlith gan Dr Rhiannon Ifans ar y testun 'Awstralia, Gwlad yr Aur: yn Narlithfa Tucker, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan 5 y.p.
14 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd yn Ysgol Gyfun Penglais.
14 Ocsiwn Addewidion gan C.Ff.I. Pontsian yn Nhafarn Bach, Pontsian.
16 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 3.30y.p.
20 Eisteddfod Papurau Bro yng Ngwesty Llanina, Llanarth.
23 Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Bryn am 3 a 4 y.p.
23 Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7y.h. Elw tuag Eisteddfod yr Urdd 2010.
26 Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen.
28-29 Penwythnos Cymraeg C.Ff.I. Cymru yn Theatr Felinfach.

EBRILL

6 Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul.
8 Cyfarfod Pwyllgor Apêl Llambed a'r Cylch Eisteddfod 2010 yn Festri Brondeifi am 7.30.
10 Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gobaith a'r Angor' yn Theatr Felinfach.
12 Cwmni Cudyll Coch yn perfformio dau gomedi yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
13 Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin.
13 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn.
13 Rihyrsal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed ym Methel Silian am 2.00 o'r gloch.
19 Sioe Meirch Llambed ar gaeau Llanllŷr, Talsarn, Llambed.
20 Rihyrsal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Bwlch-y-Fadfa.
27 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Bwlchyfadfa, Talgarreg am 2:00y.p. a 5:30y.h.

MAI

3 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg am 2 o'r gloch. Rhaglenni gan Emyr ar 01545 590383 neu Janice ar 01545 598318.
10 Bwyd ac Adloniant -gyda Glan Davies a Paul Dazeley ym Mhabell Pantdefaid, Pontsian. Elw'r noson tuag at Ymchwil Cystic Fibrosis ac Ymchwil Cancr. Ffoniwch Janet 01545 590280.
11 Rihyrsal Bedyddwyr cylch Caio a Llambed yn Noddfa am 2.00y.p.
18 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambed ym Methel Cwm Pedol am 2.30y.p. a 6.00y.h.
23 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 8y.h.

MEHEFIN

7 Rali C.Ff.I. Ceredigion Pontsian ar fferm Pantydefaid, Prengwyn.
8 Cymanfa Ganu Rali.

Cwmsychpant

Elin Mai Davies, Cwmsychbant yn ennill y cwpan am yr unawd dan 6 oed ac hefyd yn dod yn ail yn y llefaru yn Eisteddfod Dihewyd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Marian ac Emyr Rees, Caeronnen ar enedigaeth merch fach – Lowri, chwaer fach i Lleucu. Wyres fach arall i Roy Rees, Pantronnen.

Diolch

Dymuna Emyr a Marian, Caeronnen ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau rhoddion, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn ystod salwch Lleucu yn ddiweddar.

Mae'n parhau i wella'n dda ac yn cryfhau bob dydd.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau calonnog i Edward Davies, Maesnewydd ar achlysur ei ddyweddïad ar ddydd Sant Ffolant â Lowri Wilkins o Lambed. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Adref o'r ysbyty

Bu Mrs Sally Davies, Maesnewydd yn treulio peth amser yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis ond erbyn hyn mae adref yn Maesnewydd yn derbyn gofal y teulu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Brian a Mair Potter a'r teulu yn Rhoslwyn ar farwolaeth tad Brian a oedd yn byw yn Efrog a fu farw yn ystod y mis.

Hefyd, cydymdeimlwn â David, Wendy, Carwyn a Meinir Davies, Caerwenog ar golli tad a thadcu annwyl, sef Glasfryn Davies o Brengwyn.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Croesawyd pawb yn gynnes i Festri Capel y Groes, ar y 13eg o'r mis gan Dilwen George, y Cadeirydd, a braf oedd gweld y lle yn llawn. Dywedodd mor falch oedd yr aelodau o weld Mrs Beaumont nôl gyda ni; dymunodd yn dda i Jean Evans, Llwynygog sydd wedi torri ei braich, ac roedd pawb eto yn anfon eu cofion at Glyn. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mary Harries, Gelli – un a fu mor weithgar gyda'r Gymdeithas am amser maith.

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr gan Yvonne Davies a chynigwyd eu bod yn gywir gan Mair Williams, ac fe'i heiliwyd gan Eva Davies.

Pleser y Cadeirydd oedd cael croesawu a chyflwyno Eric Williams, Y Fedw, Cwmann, atom.

Taith y Côr i Batagonia yn 2007 oedd gan Eric, ond dechreuodd yr hanes gyda Michael D. Jones o Lanuwchlyn, Sylfaenydd y Wladfa yn Ne America. Trwy gyfrwng lluniau ar y sgrîn, gwelwyd ble glaniodd llong 'Y Mimosa' ym Mhorth Madryn, a'r tir diffaith y bu'n rhaid i'r ymfudwyr ei wynebu. Teithio 400 milltir eto cyn dod o hyd i dir brasach, a galwyd hwnnw yn 'Gwm Hyfryd' a dyna yw ei enw hyd heddiw.

Hanes taith y Côr wedyn a chyfle i glywed am y mannau y bu'r aelodau yn ymweld â nhw ac yn cynnal cyngherddau, Cymanfaoedd Canu a chymryd rhan mewn eisteddfod hefyd.

Diolchwyd yn gynnes i Eric am brynhawn difyr a diddorol dros ben gan Mair Evans, Dolydd, ac wedi mwynhau cwpanaid a llond bola o bice bach diolchodd Mair Williams yn ddiffuant i wragedd Capel y Groes ac i Aneurin am helpu. Cyfrannodd y Gymdeithas £20 at gronfa LATCH.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Eglwys Llanwenog, ar Fawrth 12fed, pan fydd plant Ysgol Llanwenog yn dod i roi adloniant, a thipyn o naws Gŵyl Ddewi.

Ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Nans Evans, Dôl-hardd ar ddod yn fam-gu unwaith eto, gyda mab bach o'r enw Llyr, i Meryl a John yn Ferry Side a brawd bach i Owain. Hefyd, llongyfrachiadau i Mrs Nancy Evans, Hazeldene ar ddod yn hen fam-gu.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theuluoedd Bwlchmawr, Bryndolau a Ger-y-Nant yn dilyn marwolaeth modryb a hen fodryb, sef Megan Davies o Lambed a fu farw yn ystod y mis.

Cydymdeimlwn hefyd â Dilwyn a Helen, Tegfryn, Brynawelon ar farwolaeth tad Dilwyn ym Mhrengwyn yn ddiweddar.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i deulu'r Glyn ar enedigaeth merch fach yn ystod y mis, chwaer i Dewi.

Eglwys Santes Gwenog.

Clwb 100 Ionawr. 1. Margaret Roberts, Madryn. 2. Jonathan Goodall, 3. Meryl Lloyd.

Clwb 100 Chwefror. 1. Wendy Mellor, 2. Peter Fillery, 3. Catherine Bone.

Cydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar a dymunwn wellad buan i'r rhai sy'n mynd drwy gyfnod o anhwylder.

Llwyddiant.

Hyfryd yw clywed am lwyddiant Rhian Wyn Thomas, Llechwedd, Llanwenog ym myd golff.

Mewn cystadleuaeth yn Hacienda del Alamo yng nghyrchfan gwyliau pum seren Murcia yn Sbaen, llwyddodd Rhian i fynd o amgylch y cwrs gyda sgôr o 75 a 72; 4 dros par. Roedd hyn yn ddigon iddi sicrhau buddugoliaeth.

Roedd y gystadleuaeth yn agored i ferched amatur a phroffesiynol. Yn anffodus, nid yw'n medru cystadlu yn y gystadleuaeth agored i ferched yn Sbaen gan fod rhaid bod heb handicap i wneud hynny. +2 yw handicap Rhian ar hyn o bryd. Nid oes angen proffwyd i ragweld y bydd hwnnw'n diflannu'n fuan. Pob hwyl i ti Rhian a chofia fod darllenwyr Clonc i gyd yn dymuno'n dda i ti.

CFfI Llanwenog

Wedi'r holl ymarfer caled, cafodd y clwb lwyddiant mawr yng nghystadlaethau hanner awr adloniant y sir yn Felinfach.

Llwyddon ni i ddod yn bumed allan o 14 o glybiau oedd â safon uchel iawn ac i goroni'r cyfan, mi enillon ni'r wobr am y cynhyrchydd gorau hefyd. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran ac yn arbennig i Linda Jones y prif gynhyrchydd, ac, wrth gwrs diolch yn fawr iawn i bob un arall a wnaeth ein helpu. Wedi wythnos neu ddwy o hoe haeddiannol, mi aeth rhai o aelodau iau y clwb i Neuadd Pontsian er mwyn cymryd rhan yng nghwis y sir. Wedi llawer o grafu pen a phenbleth, atebwyd y cwestiynau i gyd, ac rydym yn croesi'n bysedd yn dynn yn aros am y canlyniad.

Plant Ysgol Llanwenog yn coginio crempogau

Ysgol Llanwenog

Treuliodd disgyblion yr Adran Iau gyfnod yn Ysgol Cwrtnewydd yn gwylio dramau byrion yn cael eu perfformio gan Gwmni Arad Goch. Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 hefyd brynhawn yn Ysgol Cwrtnewydd yn gwrando ar Cath Aran o Gwmni Theatr Arad Goch, yn cyflwyno nifer o straeon difyr. Roedd yn brofiad bythgofiadwy, a gobeithiwn y bydd yn symbyliad i'r plant i greu ac adrodd storiau hwyliog eu hunain! Diolch i Cath am ein tywys drwy ei storiau cyffrous, ac i staff Ysgol Cwrtnewydd am ein croesawu'n dwymgalon yn ystod y ddau sesiwn yma.

I ddathlu Dydd Mawrth Ynyd eleni, bu'r plant hŷn yn coginio crempogau i'r Ysgol Gyfan, a chawsom wledd i gofio!

Braf yw nodi fod dau Glwb ar ôl ysgol yn parhau i fynd o nerth i nerth, sef Clwb Technoleg Gwybodaeth o dan arweiniad Mrs. Lorraine Davies a Chlwb Chwaraeon o dan ofalaeth Miss Heddwen Davies. Diolch i Mr Bryn Evans, Swyddog Datblygu Campau'r Ddraig am gynnal y sesiwn cyntaf oll. Carwn nodi hefyd o Fawrth y 4ydd ymlaen y bydd Adran yr Urdd yn ail gychwyn i bawb, gan fod yr aelodau hŷn wedi cymryd y sesiynau hyd yma yn paratoi gogyfer âg Eisteddfod yr Urdd.

Edrychwn ymlaen at ddiddanu Henoed y Plwyf yn Eglwys Gwenog, Llanwenog ar brynhawn Dydd Mercher, y 12fed o Fawrth am 2.00 o'r gloch.

Clwb Clonc

Mawrth 2008

£25 rhif 79:
Mrs Rosie Davies,
Croesmaen,
Llanfihangel-ar-Arth
£20 rhif 25:
Twynog Davies,
Frondolau, Pentrebach,
Llambed.
£15 rhif 378:
Roy Roach,
5 Bro Llan, Llanwnnen.
£10 rhif 263:
Mrs Lynda Jones,
Penlôn, Gorsgoch.
£10 rhif 286:
Esyllt a Mared Jones,
Cefngwrthafarn Uchaf,
Pennant.
£10 rhif 345:
Huw Morgan,
Glasfan, Drefach.

Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LSS, Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Vanilla Bay, Aberaeron
Siop Talgarreg
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Cwmann
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tu-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

HYSBYSEBU YN CLONC
"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cwmann

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd Carreg Hirfaen a enillodd gystadleuaeth cylch Llanbed a dod yn drydydd hefyd yn y gystadleuaeth ranbarthol ddechrau mis Chwefror yn Llangrannog.

Côr Côrisma

Etholwyd trysorydd newydd sef Luned Thomas, a diolchwyd i Tina Saunders am ei gwaith fel trysorydd ers sefydlu'r côr. Etholwyd Helen Roberts yn Swyddog y Wasg.

Mae'r côr wrthi'n paratoi ar gyfer cyngerdd yn Eglwys Llangeitho ar y 13eg Ebrill ac yn Neuadd Gynull Llanymddyfri ar y 25ain Ebrill. Croeso cynnes i unrhyw aelodau newydd.

Sefydlwyd gwefan newydd i'r côr sef: www.corisma.btik.com Gwahoddir pawb i ymweld â'r wefan a gadael sylwadau yn y Llyfr Gwesteion.

Diolch

Dymuna Irene Price, Gelliwrol ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y blodau, cardiau a'r anrhegion dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y caredigrwydd yn fawr iawn.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, Chwefror 4 croesawodd Ann, yr is-lywydd, yr aelodau ynghyd a chymerodd at y cyfarfod. Cydymdeimlodd ag Elma gan ddweud ei bod yn falch i'w gweld yn ôl yn ein plith. Rhoddodd longyfarchiadau i Iona ar ddathlu pen-blwydd arbennig ac i Lena ar ddod yn hen fam-gu. Dymunodd wellhad buan i Irene yn dilyn ei llawdriniaeth.

Penderfynwyd danfon cyfraniad i'r swyddfa yng Nghaerfyrddin. Mae naw aelod am fynd i chwarae Dominos yn Llandeilo ar Chwefror 25 - pob lwc. Bydd cyfarfod rhanbarth cylch Teifi yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Gymuned ar nos Wener, 14 o Fawrth am 7.30. Gwnaed trefniadau ynglŷn â'r bwyd. Noson o goginio fydd hon yn ngofal Eleri Hughes a Helen McNulty Jones.

Cyflwynodd Gwen, y Llywydd, ein panelwyr am y noson a threuliwyd orig bleserus iawn yn eu cwmni. Roeddent yn siarad am eu hoff drysorau. Roedd Jenny Brachet yn sôn am ei theulu a'i chefndir - yn enedigol o Gribyn, symud i fyw i Felinfach ac yna gweithio gyda J.D Lloyd, Aberaeron cyn mynd i weithio fel gweinyddwraig yn Llyfrgell y Coleg am 45 o flynyddoedd nes ymddeol. Ei thrysor gorau hi oedd ei rhieni a'r teimlad o agosatrwydd sydd mor bwysig iddi. Yna, bu John B. Williams o Lanwnnen yn sôn am ei dad a'i dad-cu pan oeddent ar y môr a'i drysorau yntau oedd Llyfr Siart o foroedd y byd a chloc wedi cael ei fframio mewn pren a gyflwynwyd yn rhodd arbennig i'w dad a oedd yn gapten llong gyda thystysgrif yn 1923. A'r trydydd oedd Philip Lodwick. Cerdded yw ei ddiddordeb yntau a'i hoff drysor wrth gwrs oedd pâr o esgidiau cyfforddus. Rydym yn gwybod am y gwaith da y mae'n ei gyflawni gyda Cherddwyr Llanbed drwy'r flwyddyn. Diolchodd Llinos yn gynnes iawn i'r tri am noson fendigedig ac am roi o'u hamser i ddod atom. I orffen y noson cafwyd cwpanaid o de gan Llinos a Iona ac enillwyd yr raffl fisol gan Llinos.

Diolch

Dymuna Rhian Jones, Hafod Cottage, ddiolch yn gynnes i'w pherthnasau, ffrindiau a'r cymdogion am y blodau, cardiau, galwadau ffôn, yr anrhegion a'r bwyd o bob math a dderbyniodd ar ôl dod adref o'r ysbyty. Diolch yn fawr.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Danny Davies, Brynteifi, Sally Davies, Four winds, ac Irene Price, Gelliwrol yn dilyn eu llawdriniaethau yn ddiweddar mewn ysbytai gwahanol.

Cydymdeimlo

Gyda siom a thristwch y clywyd am farwolaeth Eirian Evans, Heol Gynhebog, gynt o Cae Ram. Rhoddwn ein cydymdeimlad dwysaf i Denzil, Ffion a'r perthnasau i gyd. Hefyd, cydymdeimlwn â theulu Gwyndaf Harris, Rhydaman (gynt o Kingspark) a fu farw yn ddiweddar.

Blin oedd clywed am farwolaeth Mrs. Margaret Jenkins, Aberaeron (Tycerrig gynt) a hithau yn 97 oed. Roedd wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar o Sefydliad y Merched Coedmor ac Eglwys St. Iago. Cydymdeimlwn â'i merch, Olwen.

Diolch

Dymuna Danny, Brynteify ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion, galwadau ffon a'r ymweliadau a dderbyniod ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli yn diweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Clwb 170

1. Mrs Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch, 34, 2. Mrs. Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann, 30, 3. Mrs Jean Thomos, 4 Cwrt-Peri, Cwmann, 51, 4. Mrs Helen Davies, Lan yr Esgair, Cwmann, 38, 5. Miss Kelly James, 15 Bro Llan, Llanwnnen, 27, 6. Mrs James, Cartref, Bryn Rd, Llanbed, 101, 7. Mr Johnny Williams, Bayliau, Bridge St, Llanbed, 48, 8. Mr. Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 72, 9. Miss Mary James, Brynllyn, Bryn Rd, Llanbed, 97, 10. Miss Angharad Price, Dresden House, Llanbed, 33.

Llanbedr Pont Steffan

Noddfa

Cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa ar Sul 16 Mawrth am 3.30 o'r gloch i ddathlu'r Pasg yng ngofal y plant a'r bobl ifanc. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Hyfryd oedd clywed geiriau o waith Beryl Davies o Landdewi Brefi, un o aelodau dawnus Noddfa yn cael eu canu ar raglen Caniadaeth y Cysegr yn ddiweddar. Côr Cwmann oedd yn canu'r emyn ar y dôn Cwm Pedol a gyfansoddwyd gan Fedyddiwr arall ac aelod o'r côr, sef Elfyn Davies o Ffarmers sydd yn organydd yng Nghapel Bethel Cwm Pedol. Mae Beryl wedi ennill nifer o wobrau mewn eisteddfodau ar hyd a lled y wlad am eu hemynau – pob lwc iddi eto i'r dyfodol. Daliwch ymlaen â'r gwaith rhagorol.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Ffynnonbedr nos Fawrth 19 Chwefror a braf oedd gweld 37 o'r aelodau yn bresennol. Cyfeiriodd Janet at y gystadleuaeth Aquathlon sef ras nofio a rhedeg a gynhelir yn Aberystwyth ar Sadwrn 21 Mehefin. Treuliwyd orig ddiddorol a difyr dros ben mewn gweithdy drama yng ngofal Sian Jones, Croesor, Cwmann. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn cymryd rhan mewn tasgau gwahanol yn cynnwys portreadu sefyllfaoedd amrywiol drwy gyfrwng mynegiant wyneb yn unig a hefyd rwy gyfrwng geiriau. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn. Diolchodd Dewi Uridge i Sian am noson arbennig a hefyd i Helen, Roasaline a Janet am gadw trefn! Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi cymryd rhan mewn Eisteddfod Ddwl sef un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ac ar 18 Mawrth cynhelir noson o hwyl yng ngofal y swyddogion. Pob lwc i bawb sydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd.

Eisteddfod 2010

Mae pwyllgor apêl Llanbedr Pont Steffan a'r cylch wedi ei ffurfio ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010. Etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd Dorian Jones; Is-Gadeirydd Y Cynghorydd Chris Thomas, Maer y Dref; Trysorydd Rhys Bebb Jones; ysgrifenyddion Sian Jones ac Elin Williams; Swyddog Cyhoeddusrwydd a Gohebydd y Wasg Janet Evans. Mae yna nifer o syniadau amrywiol wedi eu cynnig ar gyfer codi arian. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar yr wythfed o Ebrill yn Festri Brondeifi am 7.30 o'r gloch. Estynnir gwahoddiad cynnes i unigolion ac i gynrychiolaeth o'r mudiadau, yr eglwysi a'r ysgolion lleol. Dewch yn llu – gwerthfawrogir eich cefnogaeth.

Cylch Cinio

Cynhaliwyd Cylch Cinio Llanbed yng Ngwesty Glynhebog nos Iau Chwefror 7fed a hynny mewn awyrgylch cartrefol hyfryd, y bwyd yn arbennig a'r siaradwr gwadd yn cyflwyno ei hanes yn naturiol a diddorol dros ben. Agorwyd y noson gyda'r Llywydd Owen Jones yn talu teyrnged o goffadwriaeth i'r diweddar Goronwy Phillips. Yn ystod y blynyddoedd olaf ni fu Goronwy yn mwynhau'r iechyd gorau a threuliodd dymor hir yn yr ysbyty. Bu'n ffyddlon a theyrngar ar hyd y blynyddoedd. Ef oedd swyddog y wasg ac roedd ei adroddiadau manwl o'r nosweithiau yn werth eu darllen. Etholwyd Goronwy yn Llywydd rhyw ddwy flynedd yn ôl ond ar y pryd, oherwydd salwch, ni fedrai dderbyn, felly etholwyd ef yn Is Lywydd tan y byddai mewn iechyd gwell i dderbyn y Gadeiryddiaeth. Yn anffodus nid felly y bu. Mewn munud dawel cofiwyd amdano a'i gyfraniad i'r Cylch a chofio hefyd am ei briod Elma a'r teulu. Rhoddodd Owen Jones groeso nôl i Ivor Watkins ar ôl salwch hir a dymuno hefyd adferiad llwyr a buan i Islwyn Williams a gafodd ei gymryd yn wael yn Seland Newydd.

Gŵr o Dregaron yw Huw Evans y siaradwr gwadd. Derbyniodd ei addysg yn y ddwy ysgol leol cyn mynd i Goleg Prifysgol Lerpwl a graddio mewn Fferylliaeth. Yna bu'n gweithio am gyfnod yn Ysbyty St. Mary's Paddington. Yn gwbl annisgwyl yn 1984 bu fawr ei dad ac yng ngeiriau Huw, fe gollodd 'ei ffrind gorau'. Yna, dychwelodd adref i Dregaron i gymryd y fusnes. Roedd ei dad yn cynrychioli'r bedwaredd genhedlaeth o gigyddion yn y dref. Ym mis Medi 1989 agorodd Huw ladd-dy at wasanaeth ffermwyr yr ardal. Yn 1989 priododd â Morag ac ymsefydlodd y ddau yn Nhregaron. Mae ganddynt bedwar o blant - Rhys, Anwen, Carys a Kristin. Erbyn hyn mae siop y Cigydd wedi ei gwerthu ac mae Huw a'i briod yn rhedeg y Fferyllfa leol. Mae ganodd gariad mawr at geffylau ac mae hynny wedi cydio yn y plant hefyd. Yn ei eiriau ef – gwell ganddo weld y plant yn clymu wrth geffylau na chyffuriau. Mae Huw yn Gadeirydd Pwyllgor Rasus Tregaron ers pymtheg mlynedd. Mae'n achlysur deuddydd bellach ac yn enwog trwy Brydain a'r tu hwnt. Bridwyd a magwyd gan Huw a'r teulu Scoot Around, y ceffyl gorau yn y wlad. Fel ei dad, mae'n cefnogi economi cefn gwlad. Bu'n Gadeirydd menter leol Curiad Caron. Mae'n Gadeirydd Corff Llywodraethol yr Ysgol Uwchradd yn Nhregaron. Ei fwriad yw diogelu a gweithio dros bopeth sy'n adeiladol i'r diwylliant Cymraeg ac economi ardal Tregaron a'r fro. Cyfaill agos a gŵr busnes arall yn Nhregaorn, Gary Jones, a fu'n talu'r diolchiadau a hynny yn gryno a ddiffuant. Bydd y Cylch Cinio yn cyfarfod nesaf yng Nghlynhebog ar Fawrth 6ed – hon fydd Nosos y Gwragedd. Tîm y Taeogion fydd yno'n diddori. Mae Alan Morgan, y Trysorydd, yn awyddus i gael yr enwau a'r arian mewn da bryd. Dim ond lle i 60 o bobl sydd yna yn yr ystafell fwyta. Felly y cyntaf i'r felin ...

Newid Aelwyd

Dymuniadau gorau i Alan a Ceinwen Jenkins, Tyllwyd sydd wedi symud i'w cartref newydd - Ceulan ac i Iwan, Sian, Steffan a Ffion sydd wedi symud i Tyllwyd. Gobeithio y cewch chi gyd flynyddoedd hapus ar eich aelwydydd.

80 oed

Dathlodd Gwilym Davies, Gernant, Ffordd Llanwnnen ei ben-blwydd yn 80 oed yn ystod y mis. Gobeithio eich bod wedi cael diwrnod wrth eich bodd.

Cymdeiths Hanes Llambed

Daeth cynulliad da i'r Hen Neuadd ar y 19eg o fis Chwefror, a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd, Selwyn Walters.

Yvonne Davies, un o'r aelodau oedd â gofal y noson, ac am yr ail dro aeth â'r aelodau, drwy gyfrwng lluniau, am dro ar hyd y Stryd Fawr. Ochr ogleddol y stryd oedd dan sylw y tro hwn, neu wrth ddechrau ar Sgwâr Harford, ochr dde'r stryd wrth fynd tuag at Neuadd y Dre.

Trwy gymharu hen luniau â'r adeiladau heddiw, mae'n syndod cyn lleied y mae'r Stryd wedi newid, yn enwedig uwchben lefel ffenestri'r siopau. Mae nifer o dafarnau wedi diflannu, megis Y Swan, Y Plough, Y Cambrian, Y Globe, Y George a'r Derry Arms, y rhain i gyd ar un ochr y stryd. Roedd yna nifer fawr o gryddion yn y dre ers talwm: John Jones, (Jaci Bardcer) yn cyflogi 34 o fechgyn yn ei ffatri 'sgidie gyferbyn â lle saif gorsaf yr heddlu heddiw. Bu John Jones farw yn 1879, a symudodd ei fab, William, y fusnes yn uwch i fyny'r stryd, i lle mae siop Creative Cove a'r Pantri nawr. Roedd ef hefyd yn cyflogi 30 o weithwyr yn Ffatri'r Cambrian.

Bu Swyddfa'r Post mewn tri safle gwahanol yn y stryd rhwng 1830 a 1934. Yn gyntaf, lle mae'r siop gardiau bron iawn ar Sgwâr Harford; symud wedyn i safle Siop y Smotyn Du, ac yna i'r Priordy, a ddaeth yn hwyrach yn Bon Marche, ac erbyn hyn yn siop Tenovus ac yn siop bwydydd anifeiliaid anwes.

Noson i brocio cof oedd hon, a'r gobaith yw cael adborth gan yr aelodau er mwyn cadw ar gof beth sydd wedi bod yma o'n blaenau. Os oes gan unrhyw ddarllenydd damed o stori neu hanesyn, byddem yn falch o'u clywed.

Bydd y cyfarfod nesaf, ar yr 18fed o fis Mawrth, pan fydd Tom Lloyd, awdur 'The Lost Houses of Wales' yn dod i'n hannerch. Croeso cynnes i bawb.

Merched Y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod Cangen Llanbedr Pont Steffan o Ferched Y Wawr yn Festri Shiloh. Croesawyd pawb gan Eryl, gan gyfeirio yn arbennig at Elma ar ôl cyfnod anodd iawn yn ei bywyd. Darllenwyd llythyr o ddiolch i'r aelodau oddi wrth Elma. Cyfeiriodd hefyd at Mair Lewis sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar gan ddymuno gwellhad iddi; dymunodd yn dda hefyd i Islwyn, gŵr Anita, a gafodd ei daro yn wael yn Seland Newydd gan obeithio y byddant yn cael siwrne dda wrth ddychwelyd adref.

Diolchodd Eryl i Nel Williams ac Olwen Lewis am ymweld â thrigolion Hafan Deg. Llongyfarchodd Gwyneth, Mary a Dilwen am ddod yn gyfartal drydydd wrth chwarae dartiau ar ein rhan yn y Noson Chwaraeon a gynhaliwyd yn y Llew Du yn ddiweddar. Diolchodd hefyd i Pat, Avril a Noleen am ymuno â hi i wneud tîm dominos a dymunodd yn dda i Morfydd a Ray a fydd yn ein cynrychioli mewn Gyrfa Chwist yn fuan.

Ein gwraig wadd y tro hwn oedd Gwyneth Richards, merch adnabyddus iawn o ardal Pumsaint a phawb yn ei hadnabod fel Ffisiotherapydd yn y feddygfa yn Llanbed. Cawsom noson ddiddorol yn ei chwmni pan fu'n arddangos techneg "Acupuncture" ar fraich Glesni, a oedd wedi ei thrin yn llwyddiannus iawn gan Gwyneth ar ôl llawdriniaeth ddiweddar. Cawsom gwis addysgiadol ac fe gafodd Gwyneth gymorth gan ei merch Sulwen a'i ffrind Kirsty wrth gyflwyno'r cwis. Enillydd y cwis oedd Elma.

Cafwyd cwpanaid o de cyn gorffen wedi ei baratoi gan Morfydd, Rhiannon a Llinos. Talwyd y diolchiadau gan Irene. Y tro nesaf disgwyliwn y Parch Kevin Davies i arddangos blodau i ni pan fydd aelodau o Gymdeithasau'r Capeli yn ymuno â ni ynghyd â Mary Price ein Llywydd Cenedlaethol. Fe fyddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yr un pryd drwy gael lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Enillwyd y raffl gan Mair Lewis.

Llanbedr Pont Steffan

Diolch

Dymuna Mair Lewis, 10 Bryn yr Eglwys, ddiolch yn gynnes i bawb am yr holl gardiau, yr anrhegion, y galwadau ffôn a'r ymweliadau tra yn Ysbyty Glangwili ac ar ôl dod adref. Gwerthfawrogir hefyd gymorth y nyrsys lleol. Diolch o waelod calon i chi gyd.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg.

Nos Fercher, 6ed o Chwefror, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Dynion - Cydradd Cyntaf rhwng: Mary Davies, Cwmsychpant a Dan Jones, Aberaeronn. 2il: Catrina Davies, Aberaeron. Sgôr Isaf - Dynion: Tom Davies, Pen y Bryn, Llambed. Menywod: Mary Evans, Llanwnnen

Bwrw Allan – Enillwyr: Peter Jones, Llambed a Nancy Davies, Llambed. Ail: Catrina Davies, Aberaeron a Dan Jones, Aberaeron.

Nos Fercher, 20 o Chwerfror, cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Dynion – 1af: Peter Jones, Llambed. 2il: Edward Lockyer, Hafan Deg. 3ydd: Peggy Davies, Felinfach. Merched – 1af: Nancy Davies, Heol y Goedwig, Llambed, 2il: Efan Jones, Aberarth, 3ydd: Miriam Jones, Aberaeron. Sgôr Isaf – Dynion: Dai Davies, Pensinrug, Cellan. Merched: June Mason, Harford Row, Llambed. Bwrw Allan – Enillwyr: Gerwyn Jones, Cellan a Catrina Davies, Aberaeron. Ail: Edward Lockyer, Hafan Deg a Ifan Jones, Aberarth.

Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Mawrth yn cael eu cynnal ar Nos Fercher, 5ed a'r 19eg. Croeso cynnes i bawb.

Clecs o'r Coleg

Yr hen enw ar Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yw Coleg Dewi Sant ac mae'n gwbl briodol felly fod y coleg yn arddel y cysylltiad hwnnw o ddifrif o hyd. I gychwyn dathliadau dydd Gŵyl Dewi eleni cynhaliwyd bore coffi fore dydd Mercher, 27 Chwefror yn Adran y Gymraeg a daeth staff a myfyrwyr ynghyd i goffáu ein nawddsant. Yn ystod y coffi cafwyd darlleniadau o waith Waldo ac Emrys ap Iwan.

Ar nos Wener (29 Chwefror) cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel y Coleg gan y Caplan newydd, y Tad Matthew Hill, ac fe'i dilynwyd gan seremoni urddo'r Cymrodor er Anrhydedd yn yr Hen Neuadd. Y Cymrodor er Anrhydedd a urddwyd eleni oedd Gwerfyl Pierce Jones, cyn-aelod o staff Adran y Gymraeg, sydd bellach yn Gyfarwyddwr Cyngor Llyfrau Cymru, a thraddododd hi araith ragorol ar ôl y cinio.

Ar nos Wener hefyd cynhaliwyd twmpath i'r teulu lle y bu Kaedz, grŵp o gerddorion lleol, yn ein diddanu a chodwyd arian at elusen. Cynhaliwyd gŵyl drwy'r dydd Sadwrn yn Undeb y Myfyrwyr a chafwyd amrywiaeth da o fandiau gwerin, roc a blŵs, gan gynnwys Amheus, Gruff Owen, Meibion Ffred, Yr Ods a Mattoidz. Gyda'r hwyr bu Pibau'r Planed, Frizbee (un o brif fandiau pop Cymraeg ar hyn o bryd) a Buena Risca Social Club (band o Gaerdydd) yn ein diddanu.

Am ragor o wybodaeth am Adran y Gymraeg ffoniwch Linda Jones (01570 424754) neu ewch ar y we: http://cymraeg.lamp.ac.uk

Lowri Elen Jones Llanbed yn ennill y llefaru 10 – 12 oed yn Eisteddfod Dihewyd

Ysgol Ffynnonbedr

Noson Ryngwladol – Cynhaliwyd Noson Ryngwladol yn yr ysgol yn ddiweddar lle bu pymtheg o wahanol wledydd yn cymryd rhan. Cafwyd cyflwyniad powerpoint gan rai, bu plant o Malaysia yn canu a chafwyd unawd gan fachgen oedd newydd ein cyrraedd o Tanzania. Trwy edrych ar y cyflwyniadau fe ddysgwyd llawer am y gwledydd gwahanol a gwnaethpwyd hyn i gyd mewn awyrgylch hyfryd, a hefyd cafwyd cyfle i flasu gwahanol fwydydd. Bu yn noson lwyddiannus iawn a dweud y gwir dyma'r noson fwyaf llwyddiannus a drefnwyd i rieni gan yr ysgol. Mae'n diolch yn fawr iawn felly i'r rhieni a'r plant am baratoi a chyflwyno a hefyd i Miss Wenna Davies a Miss Nia Davies a staff y gegin am drefnu'r noson ac am y bwyd blasus.

Unwaith yn rhagor cynhaliwyd eisteddfod hynod lwyddiannus yn ein hysgol mewn awyrgylch hwylus braf. Ein beirniaid oedd Mr a Mrs Arthur Roderick oedd yn hollol adnabyddus a chartrefol gyda ni yn enwedig o gofio bod ei mab Heulyn yn ddirprwy yma. Mawr yw diolch yr ysgol i'r ddau am eu gwaith yn ystod y dydd ond hefyd am feirniadu'r celf a hefyd y storïau a fu'n sail y seremonïau cadeirio a gymerodd ran fel clo i'r ddwy adran.

Yn y bore tro'r plant lleiaf oedd hi a chyflwynwyd eu gwaith â graen a mwynhad. Bu rhai'n canu ac eraill yn adrodd a'r rhieni'n mwynhau pob munud! Wedi'r holl gystadlu daethpwyd at seremoni'r cadeirio a'r plant buddugol oedd Grace Page trwy gyfrwng y Gymraeg a Laura Arthur drwy'r Saesneg. Daeth Iestyn Evans a Anis Rahman yn ail a Aoife Wooding a Sam Brammeld yn drydydd.

Y tŷ buddugol am waith y bore oedd Pedr a derbyniwyd y darian gan Osian Jones ar ran y tŷ.

Aed ati unwaith yn rhagor yn y prynhawn gyda'r adran iau a mawr oedd eu brwdfrydedd a'u hymroddiad. Wedi cryn newid o safbwynt pwy oedd ar y blaen tŷ Dewi aeth â hi yn y diwedd.

Enillwyr y cadeirio oedd Jac Evans a Shannon Evans gyda'r stori Gymraeg a Rosalind Gibbons a Rebecca Messer gyda'r stori Saesneg. Daeth Meirion Thomas, Melissa Davies, Gabriel Davis a Caleb Davis yn ail a Rhian Harries, Lowri Jones, Imogen Auckland a Sam Biden yn drydydd. Canmolwyd y gwaith llenyddol gan y beirniaid.

Masnach Deg

Mae'n Bythefnos Masnach Deg rhwng 25ain Chwefror a 9fed Mawrth a bydd nifer o ddigwyddiadau yn yr ardal i godi proffeil Masnach Deg a hybu cynnyrch Masnach Deg. Mae Llambed yn Dref Masnach Deg ers 2005 ac yn awr mae ymgyrch ar y gweill i wneud Cymru yn wlad Masnach Deg - Gwlad Masnach Deg gyntaf y byd!

Y prif ddigwyddiad yw ymweliad Mayingele Doctor Sibuye, cynhyrchwr grawnffrwythau Masnach Deg o Dde Affrica. Bydd 'Doc' yn siarad am ei fywyd ac effaith Masnach Deg ar ei deulu a'i gymuned yn Eglwys Sant Tomos am 2 o'r gloch ddydd Sadwrn Mawrth

8fed. Bydd y mynediad am ddim ac mae croeso mawr i bawb. Mae ei ymweliad yn rhan o daith o gwmpas Cymru i siarad â chymunedau ac esbonio'r gwahaniaeth y mae ein penderfyniadau prynu yn eu gwneud.

Mae prynu nwyddau Masnach Deg yn ffordd i ni gyd helpu pobl yn y byd sy'n datblygu i wella eu safonau byw. Mae'r nod Fairtrade yn sicrhau: pris teg a sefydlog i gynhyrchwyr mewn gwledydd sy'n datblygu – digon i dalu cyflog i fyw arno, dim llafur gan blant, amodau gwaith diogel, amddiffyn yr amgylchedd, hawliau i ferched a phremiwm cymdeithasol.

Ar ben hynny, mae premiwm Masnach Deg yn mynd i'r gymuned er mwyn iddi fedru codi ysgolion neu ddarparu gofal iechyd sylfaenol. Mae prynu nwyddau Masnach Deg yn gwneud byd o wahaniaeth i gynhyrchwyr ac yn creu dyfodol gwell i'w teuluoedd.

Mae bod yn dref Masnach Deg yn golygu fod cynnyrch Masnach Deg ar gael mewn siopau a chaffis, bod y cyngor a mudiadau lleol yn cefnogi egwyddorion Masnach Deg a bod grŵp yn y gymuned sy'n hybu nwyddau Masnach Deg ac yn codi ymwybyddiaeth. Erbyn hyn mae dewis eang o gynnyrch Masnach Deg ar gael yn ardal Llambed gan gynnwys te, coffi, siwgr, siocled, sudd oren, grawnffrwythau, bananas, gwin, mêl, ffrwythau sych, a llawer mwy.

Cofiwch ofyn am nwyddau Masnach Deg y tro nesaf yr ewch chi i siopa er mwyn cyfrannau at wneud Cymru'n Wlad Masnach Deg!

Am fwy o fanylion am Fasnach Deg, i gael posteri, taflenni neu os hoffech chi werthu nwyddau Masnach Deg cysylltwch â Rob Phillips, Enfys Barley Mow, Llanbedr Pont Steffan, Ffôn (01570) 422992 neu rob.phill@virgin.net. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar www.fairtradewales.com

Mwynhau darllen Clonc?

Beth am ddarllen y cyhoeddiadau Cymraeg eraill:

GOLWG – Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol wythnosol, a gynhyrchir yn Llambed, sydd yn y siopau bob dydd Iau. Ffoniwch: 01570 423529.

Y CYMRO – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol wythnosol sydd yn y siopau bob dydd Gwener. Ffoniwch: 01766 515514.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Unwaith eto eleni, amlygwyd talentau disglair disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn yr Eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd ar y 5ed a'r 6ed o Chwefror.

Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Teifi. Y beirniaid eleni oedd Y fon. Mari Grug (Cerdd), Y fon. Haf Jones (Llefaru a'r Gadair), gyda Y fon. Elaine Edwards yn beirniadu cystadleuaeth y Goron.

Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y tair ohonynt at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynhyrchion a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Roedd cystadleuaeth y Gadair yn un arbennig iawn eleni, gan y rhoddwyd hi gan Elin a Gary Watkins, er cof am eu merch, Siân. Brwydrodd yn ddewr â Cystic Fibrosis ar hyd ei hoes, cyn colli'r frwydr honno, noson yr Eisteddfod llynedd. Diolch i flwyddyn 12 a 13 dan arweiniad ein Prif Swyddogion am godi £1,007 tuag at gronfa Cystic Fibrosis, yn eu 'Snowball' adeg Nadolig.

Bwrodd 22 o feirdd ati eleni i ymgeisio am y Gadair ar y testun 'Llawenydd'. Enillwyd y Gadair gan Siwan Davies o dŷ Creuddyn am gerdd yn ymdrin â cholli mam. Cipiodd Luned Mair yr ail a'r drydydd safle, disgybl ym mlwyddyn 12 ac o dŷ Teifi.

'Change' oedd thema cystadleuaeth y Goron. Owen Thomas o dŷ Teifi oedd yn fuddugol, tra dyfarnwyd yr ail wobr i Angharad Guy o dŷ Teifi ac yn drydydd oedd Natalie Moore, hefyd o Teifi.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Carys Thomas a Russell Pink(Creuddyn); Elin Jones a Rhydian Watkins(Dulas); Hedydd Davies a Guto Jones(Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n hwylus dros ben yn ystod cyfnod y paratoi a'r Eisteddfod ei hun er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 566 o bwyntiau, Dulas yn ail gyda 493 a Chreuddyn yn drydydd gyda 470 o bwyntiau.

Nos Iau, 7fed o Chwefror, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda'r neuadd yn llawn i weld gwledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgetsys, darnau offerynnol, grŵp pop a'r dawnsio disgo – rhywbeth at ddant pawb!

Talodd y prifathro, Dylan Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion i gyd a fu wrthi'n drylwyr ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod, hefyd, diolchodd yn ddiffuant i'r staff, yn arbennig Mrs Gillian Hearne a Mrs Delor James am drefnu a goruchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Aled Thomas a Siwan Davies, Richard Milcoy ac Angharad Lewis - am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn ac i Miss Mattie Evans a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol. Yn wir, diolch i bawb a sicrhaodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Dyma ganlyniadau cystadlaethau'r llwyfan: Grŵp Pop - Creuddyn, Stori a Sain - Elliw Dafydd a Luned Mair (D), Dawnsio Disgo – Dulas, Sgets – Dulas, Meimio – Creuddyn, Unawd Offerynnol Ieuaf - Gareth Davies (C), Unawd Offerynnol Hynaf - Emily Johnston(C), Llefaru Cymraeg Ieuaf - Aron Dafydd (T), Llefaru Cymraeg Hynaf - Elin Jones (D), Unawd Merched Ieuaf - Gwawr Hatcher (D), Unawd Merched Hynaf - Nerys Evans (T), Unawd Bechgyn Ieuaf - Aron Dafydd (T), Unawd Bechgyn Hynaf - Aled Wyn Thomas (C), Deuawd - Sophie a Lauren Jones (C), Areithio - Elin Jones (D), Parti Merched – Creuddyn, Parti Bechgyn – Teifi, Côr – Dulas.

Cynhaliwyd Noson Drosglwyddo i ddisgyblion blynyddoedd 9 ac 11 yn yr ysgol ar nos Fawrth, yr 26ain o Chwefror. Dyma gyfle gwerthfawr i staff, disgyblion a rhieni drafod dewisiadau ar gyfer CA4 ac ôl-16. Cafwyd cyfres o gyflwyniadau gan athrawon ar gynnwys y gwahanol gyrsiau.

Bu dau ddisgybl o flwyddyn 12, Luned Mair a Fiona Williams ynghyd â'r dirprwy Mari Dalis ar daith i Salamanca yn Sbaen dros hanner tymor. Ymunodd y dair â chriw o ddisgyblion o Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin. Nod yr wythnos oedd i wella sgiliau ieithyddol y disgyblion a buont yn mynychu gwersi Sbaeneg yn ystod y boreau ac ar ymweliadau yn y prynhawn. Cafwyd amser pleserus a buddiol tu hwnt, a bu hefyd yn gyfle i wneud ffrindiau newydd. Diolch i Mererid Hopwood am drefnu'r daith.

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu ar gyfer y bloc newydd ar safle'r berllan. Bwriedir darparu ystafelloedd dysgu newydd, ystafell gyfrifiaduron, ac ystafell i'r Chweched. Fe fydd y gwaith yn parhau am nifer o fisoedd, a gobeithiwn y bydd yn barod ar gyfer Medi 2008.

Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu'n rhedeg yn Rasys Traws Gwlad Ceredigion a gynhaliwyd yn Llangrannog: Blwyddyn 7: Rhian Jones (2ail), Rhiannon Coleman (13eg), Steffan Roberts (11eg), Blwyddyn 8/9: Christine Lewis (4ydd), Sioned Douglas (13eg), Joseph Fisher (8fed), Blwyddyn 10/11: Rhian Davies (7fed), Aisha Aroussi (13eg), Aaron Beddoe (12fed), Daniel Davies (13eg), Merched Hŷn: Katie Parkes, Ffion Davies.

Dyma'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair:

LLAWENYDD

Gwelaf hi
tu flaen fy llygaid llawn
ond ni wêl hi fi,
gan fod ei llygaid llawen
ar gau.

Gwelaf ei modrwy briodas
yn cynnal cwlwm calonnau dau,
yn gylch di-ddiwedd o gariad,
yn glaf ac yn iach.

Gwelaf ei horiawr
yn tician yn gyson lawen
i geisio cynnal ei modfedd o fyd,
ond llonydd yw'r llawenydd
yng nghalon mam.

Daeth bywyd byrlymus i ben
gan gosb cyffur creulon.
Bywydau eraill
ar wib drwy'r nodau,
ond arafu wnaeth fy myd i,
i gywair lleddf y gân llonydd.

Caeodd cancr y llen
ar y lleuad oer
gan adael llawenydd cariad
i mi
wrth Mam.

Siwan Davies Bl 12
(Hicin a Siencyn a Siac– Creuddyn)

Dyma'r gerdd a gipiodd yr ail safle

LLAWENYDD

Taenai'r ffrog wen yn dynn dros ei chluniau,
Gan adael i'r defnydd ddawnsio ac ewynnu'n bwdel i'r llawr.
Teimlai oerni ei law e,
Yn ei un hi yn mwytho'i hapusrwydd.
Edrychai ar y fodrwy aur ar ei phedwerydd bys.
Y garreg yn pefrio,
A'r golau'n neidio allan ohoni'n wreichion bob lliw,
Yn addunedau o lawenydd a gobaith wedi eu gwasgu i un garreg fach.

Troellai e ei fodrwy o gwmpas ei fys.
Y fodrwy sy'n clymu dau fywyd,
Yn gwlwm sownd.

Mae pawb yn gwenu arni,
Yn selio'i hapusrwydd â'u geiriau.

Ond mewn awr, mi fydd ei gŵr gydag un arall,
A'u cyrff yn gwlwm.
Tra bydd hi yn sefyll yn ei ffrog wen,
ei gwên yn parhau,
Yn berwi o lawenydd,
Di-arwybod,
Naïf.

Gyda'i wên a'i weithred,
Chwala'r cariad,
Rhwyga'r gobaith,
Torra'r llawenydd.

Luned Mair Bl 12
(Y Boi'n y Bac - Teifi)

Dyma'r gerdd a ddaeth yn drydydd.

LLAWENYDD

Y ffôn bach yn crynu yn ei phoced.
Ei ateb.
Gwenu.

Llais ei gŵr yn atsain.
Y gwn yn tanio,
yn taranu trwy'r goedwig
a'r coed yn siffrwd eu cymeradwyaeth.

Corff y ferch yn tynhau,
Crynu,
Cwympo.

Gwena,
Wrth i wenwyn ei llawenydd
daenu trwy ei chorff,
yn lladd pob gronyn o gariad
yn afon werdd, filain.

Teimla'i chorff yn ysgafnhau,
a'r drwg yn enw ei theulu
yn cael ei olchi ffwrdd gan staen y gwaed ar y dail.

Gwaed y ferch.
Gwaed ei merch.

Chwardda wrth wasgu'r botwm,
a gosod y ffôn yn ei grud yn erbyn ei choes.
Gan feddwl am gladdu ei chig a'i gwaed,
Pren iach ar goeden ei theulu,
mewn bedd o hen atgofion gwag,
ac anrhydedd ei lladd.

Luned Mair Bl 12
(Mr Jones – Teifi)

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
i'r cyhoeddiad hwn
Llinell Gyswllt:
0845 6076070
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.mentrau-iaith.com
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad
Daeth tristwch dros yr holl gymdogaeth wrth glywed am farwolaeth Mrs Eiry Thomas, Maesisaf (Y Felin), Heol Llanfair yn 61 oed. Merch fferm Pantyberllan, Capel Isaac, Llandeilo oedd Eiry, wedi symud yn ferch ifanc i ffermio gyda Ieuan yn y Felin. Symudodd y ddau yno yn 1964 a chodi teulu, sef dau fachgen, Lyn ac Emyr. Rhoddwn ein cydymdeimlad dwysaf i Ieuan, ac i Lyn ac Emyr, Alex a Caryl ac i'r wyrion bach Brynmor, Llinos, Rhian, Tomos ac Owen. Rydym yn meddwl amdanynt yn eu tristwch.

Claddwyd Eiry ym mynwent Eglwys Santes Fair ddydd Mawrth Chwefror 5ed gyda gwasanaeth preifat yn y tŷ ac yn gyhoeddus yn yr eglwys, lle daeth llu niferus iawn o deulu, ffrindiau a chymdogion i ddangos eu parch iddi.

Bedydd
Roedd yn bleser mawr gweld Capel Mair yn gysurus lawn ddydd Sul Chwefror 3ydd pan ddaeth teulu Pentre a llawer o ffrindiau ynghyd i ddathlu bedydd Sara a Beca, plant Helen a Paul John o Gaerdydd. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Goronwy Evans, gydag Aerwen Griffiths wrth yr organ. Mamau a thad bedydd Sara oedd Deina a Jason Hockenhull a Sophie James, a rhai Beca oedd Pip a Huw Laughrne a Jodie James. Gwahoddwyd pawb i gael lluniaeth wych yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

Diolch
Hoffai Geoff a Linda Williams, Tynlon ddiolch o waelod calon am yr anrheg o lun y pentref, wedi ei baentio gan Aerwen Griffiths, a 'r arian a dderbyniwyd ganddynt oddi wrth y plant, y rhieni, yr athrawon, a llywodraethwyr Ysgol y Dderi. Maent yn gwerthfawrogi yn fawr iawn y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt.Byddant yn symud o Lanfair i Ddinbych Y Pysgod yn ystod mis Mawrth, a maent yn edrych ymlaen at weled llawer o wynebau 'nabyddus yn galw i'w gweld yno. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl bob amser.

Gêmau
Cynhaliwyd noswaith gêmau yn y neuadd am y tro cyntaf i weld beth fyddai'r ymateb. Bu yn noson hollol lwyddianus gyda nifer fawr o bobol wedi dod ynghyd. Diolch i'r rhai a ddaeth â'r gêmau ac i Linda a Laurence a fu yn gyfrifol am drefnu'r noson, i Linda, Jan a Lesley am ddod â'r bwyd ac i Lesley am y gerddoriaeth. Bydd y noson gêmau nesaf yn cael ei chynnal nos Sadwrn Mawrth 8fed gyda thâl o £1 i oedolion a 50c i blant.Pawb i ddod â'u hoff gêmau.

Bingo
Cafwyd noswaith o hwyl a chyfeillgarwch pan ddaeth tua ugain o bobol ynghyd i chwarae bingo yn y neuadd dan ofal Harold Tŷ Hywel. Diolch iddo ac i Gwyneth am fod yn gyfrifol am werthu tocynnau raffl ac i bawb a gyfrannodd tuag at noson hwylus.

Croeso
Croeso 'nôl i'r pentre i David (Nantymedd), Jill, Charlotte a Vaughan, gynt Riverside Cottage, sydd newydd symud i fyw i Heol Llanfair. Enw'r tŷ yw 'Y Ddôl'.

Cellan

Croeso
Croeso cynnes i'r pentref i deulu'r Wilkins. Rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi yn Nhafarn y Fishers ac yn gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Bowlio
Llongyfarchiadau i Anwen Butten am ennill medalau arian ac efydd wrth gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Bowlio'r Byd yn Seland Newydd. Mae'n braf cael pencampwraig fel hyn yn byw yn y pentref sy'n dod a chlod i Gymru a'i theulu.

Pentrebach

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Heiddwen a Siôn Thomas, Dôl-Mebyd, Llanybydder ar enedigaeth merch fach, Swyn Efa, chwaer fach newydd i Gruffudd a wyres fach newydd i Gwyndaf a Lynda yn Nolgwm Uchaf.

Gorsgoch

Gwellhad Buan
Dymwnwn wellhad buan i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg yn dilyn anffawd yn ystod y mis.

"Oddi mewn mae'n debyg mai dyma'r amgueddfa harddaf ym Mhrydain"

AMGUEDDFA
ac ORIEL CELF

Amgueddfa Ceredigion, Coliseum, Ffordd y Môr, Aberystwyth

Dydd Llun - Dydd Sadwrn 10 - 5

Arddangosfeydd sefydlog a dros dro sydd o ddiddordeb i blant ac oedolion
01970 633088
amgueddfa@ceredigion.gov.uk
http://amgueddfa.ceredigion.gov.uk

Cwrtnewydd

Clwb Ffrindiau Ysgol Cwtnewydd
Mis Chwefror 2008: £10.00 James Thomas, Hengoed, Bryngranod, Cwrtnewydd, £5.00 Lloyd Thomas, Milford, Cwrtnewydd, £2.50 Eirian Jones, Hollis, Heol Y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, £2.50 Geraint Hatcher, Cefn Hafod, Gorsgoch.

Aelwyd Newydd
Croeso cynnes i berchnogion newydd Tegfryn a gyrhaeddodd yn ystod y mis.

Wyresau Newydd
Yn ystod y mis ganwyd wyres fach newydd i Jean a Peter Griffiths, Fronddu, Swyn, merch fach i Heiddwen a Siôn Thomas ym Mhencarreg.

Hefyd, llongyfarchiadau i Hefin a Mary Jenkins, Cathal ar ddod yn ddad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor, merch fach i Sulwyn a Nicola yn Sarnicol.

Dymuniadau gorau i chi gyd.

Ysgol Cwrtnewydd

Fe fu'r dosbarth hynaf yn dathlu'r flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Cafwyd llawer o hwyl a phrofiadau amrywiol wrth i ni flasu gwahanol fwydydd, gwrando ar gerddoriaeth o Tsieina, ysgrifennu ein henwau mewn Tsieineeg a dawnsio gyda'r ddraig.

Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i'r ysgol i'n diddanu gyda pherfformiadau a dehongliadau o wahanol storïau i blant. Wedi'r gwylio daeth cyfle i gael actio gyda'r perfformwyr mewn gweithdy drama. Cyn bo hir fe fydd y storiwraig Cath Aran yn ymweld â'r ysgol i ddarllen storïau i blant dosbarth Miss Jones.

Mae'r trefniadau ar y gweill i gychwyn Cylch Ti a Fi newydd yn yr ysgol. Byddwn yn cynnal y cylch ar brynhawn Mawrth yn neuadd yr ysgol. Mae croeso cynnes i bawb. Fe fydd rhagor o wybodaeth yn dilyn cyn hir.

Mae'r parc antur ar gyrraedd. Diolch i CRhA yr ysgol am brynu'r offer chwarae newydd i'r ysgol. Fe fydd y parc yn cyrraedd yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn cael ei osod ar y cae wrth y glwyd. Rwy'n gwybod y bydd y plant wrth eu boddau gyda'r offer newydd.

Ymddiheurwn am unrhyw drafferthion a achosir yn ystod yr amser y bydd y parc yn cael ei osod.

Colofn yr Urdd

urdd.org

Rhanbarth Ceredigion
Swyddog Datblygu – Anwen Eleri, anweneleri@urdd.org neu 01239 652150

Eisteddfod Ceredigion 2010
Ydi, mae 2010 yn agosáu erbyn hyn ac mae paratoadau'r pwyllgorau wedi cychwyn ers dros flwyddyn bellach.

Cymanfa Ganu
yng Nghapel y Groes, Llanwnnen
Nos Sul, Mawrth 23ain am 7:00y.h.
Arweinydd: Carys Griffiths
Organydd: Ceinwen Roach
Llywydd: James Lloyd, Abertawe
Artistiaid: Disgyblion Ysgolion Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen
Mynediad trwy raglen: Oedolion £3.00, Plant Uwchradd £1.50
Elw tuag at Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen

Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion
18 Hydref ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at y Pwyllgor Cerdd.

Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd
ar ddydd Mercher, 5ed o Fawrth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth.

Eisteddfod Rhanbarth Cynradd
ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn, 8fed i Fawrth am 9y.b.

Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd
ar ddydd Gwener, 14eg o Fawrth yn Ysgol Gyfun Penglais, Aberystwyth.

Cadwyn Cyfrinachau

Dyma golofn newydd, lle mae Clonc yn holi nifer o gwestiynau i bobl ifanc yn eu hugeiniau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Os oes gennych chi gwestiwn diddorol i'w holi cysylltwch â'r golygydd - golygydd@clonc.co.uk Os y gwyddoch am berson ifanc a allai fod yn destun y golofn hon, cysylltwch yn yr un modd.

Enw: **Gary Davies**
Oed: 23
Pentref: Nebo, Llanon (newydd symud)
Gwaith: Cyd-drefnydd Trafnidiaeth, LAS Llambed
Partner: Buddug Lloyd
Teulu: Noel Davies (Dad), Linda 'Quiche' Davies (Mam) a Helen Marie Davies (Chwaer).

Hoff raglen deledu pan yn blentyn.
Teenage Mutant Ninja Turtles

Yr embaras mwyaf.
Rhedeg o gwmpas Caerfyrddin, dim ond yn gwisgo hosan.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Oasis – Be Here Now.

Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?
Gatre yn y gwely.

Beth yw dy lysenw?
Big G.

Pwy yw dy arwyr?
David Brent.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y streiten yn Pentrebach, car yn gallu hedfan lawr 'na!

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Treial ffeindio lifft adre ar ôl noswaith ar y cwrw.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol sy'n methu taclo mewn gêm rygbi. (Geraint Thomas, Llanllwni).

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Rhoi'r cwbwl lawr ar bet fod Clwb Rygbi Llambed yn mynd i guro Clwb Rygbi Llanybydder eto!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Pobol fach.

Unrhyw ofergoelion?
'High five' cyn gêm rygbi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Mae'n dod yn naturiol.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Nofio ac Ymarfer Rygbi.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Paid cael dy ddala gyda dy bants i lawr.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael fy nala gyda fy mhants i lawr!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Tal, gwd boi.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Jessica Alba

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Sosej, mash, pys a grefi.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Wales On Sunday.

Beth yw dy hoff arogl?
Petrol.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwylio chwaraeon ar y teledu.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
www.bbc.co.uk/sport

Pa un peth fyddet ti'n ei newid am dy hunan?
Fy mhigyrnau, sdim gyda fi, ma' nhw fel boncyffion.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Y wejen.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Deall merched.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
NWA – Express Yourself.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Ddim yn credu 'ny.

Beth fyddet yn ei wneud pe na byddet yn gwneud y gwaith hwn?
Chwilo am waith arall.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Y gwely.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Fy hunan.

Y gwyliau gorau?
Stag Aled Thomas i Blackpool.

Arferion gwael?
Dwgyd ffôn symudol fy ffrindiau a tecsto pethau gwirion i bobol eraill.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal i fyw gobeithio.

Testun cyfrinachau y rhifyn nesaf:
Laura Davies, Pentre Bach

Adolygiad Shaun Ablett, Llanybydder o'r ffilm 'St Trinian's' (12A)
Bywyd newydd i hen ysgol. Hyd: 101 munud.

Y Sêr:	Rupert Everett, Colin Firth, Russell Brand, Gemma Arterton, Talulah Riley.
Cyfarwyddwyr:	Oliver Parker, Barnaby Thompson.
Ysgrifenwyr:	Piers Ashworth, Nick Moorcroft.

Dyma'r chweched ffilm am ysgol ferched St Trinian's. Gwnaed y ffilmiau cyntaf nôl yn y pump a'r chwedegau ac yn y ffilm ddiweddaraf hon rhaid i'r merched i gyd godi arian i arbed yr ysgol rhag cael ei chau am byth.

Mae'r ffilm yn dechrau gyda merch newydd, Annabel Fritton (Talulah Riley) yn cyrraedd yr ysgol gyda'i thad, Carnaby Fritton (Rupert Everett), brawd y brifathrawes, Camilla Fritton (Rupert Everett eto).

Arweinir Annabel o gwmpas yr ysgol gan y brif ferch, Kelly (Gemma Arterton), sy'n ei chyflwyno i'r gwahanol grwpiau o ferched sydd yno gan gynnwys Emos, Posh Totty, Geeks a'r flwyddyn gyntaf.

Er nad yw Annabel yn cael amser da ar y dechrau mae'n dod yn un ohonyn nhw cyn y diwedd ac yn ymuno â chynllwyn y merched gyda help Flash Harry (Russell Brand) i ddifetha cynlluniau gweinidog addysg y Llywodraeth, Geoffrey Thwaites (Colin Firth), i gau'r lle.

Mwynheais y ffilm hon er nad oeddwn yn edrych ymlaen rhyw lawer at ei gweld - ond yr oedd llawer o olygfeydd doniol a difyr iawn a'r cyfarwyddwr yn llwyddo i drosglwyddo'r ysgol a'i merched rhyfeddol i ganrif newydd.

Cafwyd perfformiadau da iawn gan y prif gymeriadau i gyd, gan gynnwys Gemma Arterton, ond heb os, Russell Brand sydd orau a'r mwyaf naturiol yn chwarae rhan Flash Harry.

Mae hon yn ffilm y bydd pawb dros 14 oed yn ei mwynhau gan ei bod yn cynnwys nifer o themâu a phroblemau y gall pawb uniaethu â hwy. Ffilm ddoniol iawn.

Darparwyd yr erthygl hon yn rhan o gynllun Cyfrannu ar y Cyd rhwng BBC Cymru'r Byd ac Antur Teifi. Daeth y cynllun hwn i ben ar 31 Ionawr 2008.

Llanwnnen

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Mr Gomer Lewis, Hafan, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbty yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau
Pen-blwydd hapus i Mrs Megan Evans, Bro Grannell sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed
Pen-blwydd hapus hefyd i Stephanie James, Bro Cadarn a ddathlodd ei phen-blwydd yn 18 oed ddiwedd Ionawr.

Babi newydd
Pob dymuniad da i Kim a Geraint Williams, Tynllyn, ar enedigaeth Nia, chwaer fach i Rhys.

Newid aelwyd
Pob hwyl i Iwan, Sian , Steffan a Ffion Jenkins sydd bellach wedi symud o Fro Grannell i Tyllwyd. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yno. Pob dymuniad da hefyd i Ceinwen ac Alan yn y byngalo newydd.

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Luned Mair, Penynant am ddod yn ail ac yn drydedd yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Ysgol Uwchradd Llambed. Go lew ti!

Sefydliad y Merched
Cynhaliwyd cyfarfod misol y mudiad ar nos Lun 4yd Chwefror yng ngwesty'r Grannell. Un o'r aelodau oedd y siaradwraig wadd, sef Mrs Joyce Flaxman, Caeglas. Cwiltio yw un o'i phrif ddiddordebau ac mae wedi ennill tystysgrif 'City and Guilds' yn ei chrefft. Cafwyd tipyn o hanes cynnar y grefft ganddi o'i gychwyn yn yr Aifft cyn ymledu i'r America, lle mae yn boblogaidd iawn. Roedd yn amlwg fod gan Joyce ddawn arbennig a gwelwyd hyn yn yr enghreifftiau o'i gwaith oedd ganddi i ddangos inni. Diolchodd Mrs Mary Davies iddi am noson ddiddorol iawn.
Enillwyd y gystadleuaeth gan Miss Elsa Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Pantri, Llanbed pan fyddwn yn dathlu Gŵyl Dewi gyda'n cawl blynyddol.

Cydnabyddiaeth
Dymuna Gethin, Gwyneth a Gareth a'u teuluoedd ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a dderbyniwyd ar golli mam a mam-gu annwyl iawn sef Mrs Myfanwy Jones, Blaenwaun-ganol, Llanwnnen ar ddiwedd Ionawr. Gwerthfawrogwyd hefyd y caredigrwydd a'r consyrn a ddangoswyd iddi yn ystod ei salwch. Diolch yn fawr iawn.

Plant Ysgol Llanwnnen yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd yn Llanbed.

Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau i Angharad James, Castell Du ar basio ei phrawf gyrru. Cymer ofal o hyn allan!

Ysgol Llanwnnen
Croeso nôl i Joshua Newton-Jones atom i'r ysgol a hefyd croesawn Hayley Thomas sydd wedi dechrau gennym am ddau ddiwrnod yr wythnos fel rhan o'i chwrs coleg.
Bu llawer o blant yr ysgol yn brysur iawn yn cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd yn Llangrannog ar ddydd Mercher, 20fed o Chwefror. Dyma'r canlyniadau:
Gwaith Creadigol Bl. 3 a 4 – Ryan Holmes, 2il, Pyped Bl. 3 a 4 – Sophie Herron 2il, Cywaith Gwehyddu Bl. 3 a 4 – Ysgol Llanwnnen 1af a 3ydd, Print lliw Bl. 3 a 4 – Ffion Jenkins 2il, Print du a gwyn: Gwenllian Jenkins 1af, Gemwaith Bl. 3 a 4: Ellen Jones a Sophie Herron 2il.
Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus am yr ail waith drwy dderbyn y Marc Safon o dan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.
Bu dosbarth y babanod draw yng Nghwrtnewydd i weld drama gan Arad Goch ar brynhawn ddydd Mawrth, 26ain o Chwefror.
Rydym fel Adran yr Urdd wedi cwrdd sawl gwaith yn ystod y tymor yma drwy gynnal gwahanol weithgareddau ar ôl ysgol.
Rydym ar hyn o bryd wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer tuag at Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed a gynhaliwyd ar ddydd Iau, Chwefror 28ain yn Ysgol Gyfun Llambed. Bydd canlyniadau yn y rhifyn nesaf o Clonc.

Canmlwyddiant yr ysgol
Yn ystod yr haf eleni mae yna rai digwyddiadau wedi eu trefnu i nodi'r achlysur bod Ysgol Llanwnnen yn dathlu ei Chanmlwyddiant. Dyma'r digwyddiadau:
Nos Sadwrn, 5ed o Orffennaf – Cyngerdd y Dathlu yn Theatr Felinfach, Dydd Gwener, 19eg o Fedi – Te Parti i'r plant presennol yn yr ysgol, Dydd Sadwrn, 20fed o Fedi – Lansio'r llyfr, dadorchuddio plac ac arddangosfa luniau yn yr ysgol rhwng 2y.p. a 5y.p. Nos Sadwrn, 20fed o Fedi – Cinio'r Dathlu yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen. Nos Sul, 21ain o Fedi – Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes, Llanwnnen.
Mae yna bobl wedi eu penodi i fod yn gyfrifol am wahanol ddegawdau, felly os ydych chi am fod yn rhan o'r gyngerdd a fyddech mor garedig a chysylltu gydag un o'r rhain:
1930/40 – Picton Jones; 1950 – John Jones, 1960 – Megan Jones, 1970 – Emyr Lloyd, 1980 – Bethan Evans (Mills) a 1990 – Elin Thomas.

www.clonc.co.uk
Gwefan Newydd
Papur Bro Clonc,
yn llawn lluniau a
gwybodaeth,
cyfle i chi gyfrannu,
a chyn rifynnau Clonc.

Llanybydder

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i'r canlynol am basio arholiadau cerdd amser y Nadolig.
Ysgrifenedig – Gradd 1 gydag anrhydedd Ruth Davies, Llwyncelyn. Gradd 5 Wendy Davies, Isfryn. Gradd 1 Piano gyda theilyngdod, Sioned Fflur Evans, Glantren Fach. Gradd 3 Meleri Davies, Tyngrug Isaf a Sioned Davies, Y Cartws. Gradd 5 Piano a Gradd 3 sacsaffôn – gyda theilyngdod, Gareth Davies, Llys Enwyn. Da iawn chi i gyd.

Merched y Wawr
Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Merched y Wawr nos Lun 25ain o Chwefror gyda Linda Davies yn llywyddu. Croesawodd yr aelodau a hefyd cydymdeimlodd a Mair Potter ar golli ei thad yng nghyfraith yn ddiweddar. Dywedodd ein bod wedi codi £139 yn y gwasanaeth a gynhaliwyd yn yr Eglwys adeg y Nadolig. Aeth ymlaen i groesawu ein siaradwr gwadd, sef y Parch Eirian Wyn Lewis sydd yn enedigol o Lanybydder ond sydd wedi bod yn weinidog yn Mynachlog Ddu ar cyffiniau ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Testun ei sgwrs oedd Trampan. Bu yn son am ei deithiau i'r Amerig, Canada ac i Batagonia. Roedd wedi dod â nifer o bethau gydag ef i'w dangos a chawsom i gyd flasu te Mate, diod sydd yn boblogaidd iawn gan bobol Patagonia. Diolchwyd iddo gan Jean Davies, a hi hefyd a roddodd gwobr y raffl a enillwyd gan Catrin James. Anne Milcoy a Bet Davies oedd yng ngofal y te. Bydd yr aelodau yn ymuno ag aelodau cangen Pencader ym mis Mawrth. Yr aelodau i gyfarfod ar y sgwâr isaf am ugain munud wedi saith.

Gohebiaeth Clonc

Arholwyr cyfrwng - Cymraeg - cyfleoedd gwaith

Mae ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg yn dysgu amryw o bynciau. Mae eisiau mwy o arholwyr â phrofiad priodol a all arholi gwaith cwrs a phapurau arholi ymgeiswyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ran y cyrff dyfarnu, mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am bobl fyddai'n gweithio ar eu liwt eu hunain i asesu arholiadau TGAU a Safon Uwch yn y pynciau canlynol:

Astudiaethau Hamdden, Meddwl yn Feirniadol, Cymdeithaseg, Seicoleg, Dawns, Technoleg Cerddoriaeth, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.

Caiff arholwyr eu hyfforddi a'u talu gan y cyrff dyfarnu. Yn ogystal â marcio papurau arholi, am rai pynciau bydd eisiau ymweld ag ysgolion er mwyn asesu arholiadau ymarferol. Fel rheol, byddai'n rhaid i arholwyr wneud peth asesu trwy gyfrwng y Saesneg, fel y gallai'r cyrff dyfarnu sicrhau cysondeb yn y marcio.

Rhaid wrth Gymraeg rhugl a phrofiad addysgu perthnasol.

Croesawir ymholiadau am gyfleoedd mewn pynciau eraill hefyd, gan fod galw cyson am arholwyr cyfrwng-Cymraeg.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Dr Miranda Morton ar 029-2037 5433 neu miranda.morton@wales.gsi.gov.uk.

Annwyl ddarllenwyr

HOFF EMYN PANTYCELYN

Eleni, mae'r gyfres Dechrau Canu Dechrau Canmol am ddarganfod beth yw hoff emyn y Cymry gan y pêr-ganiedydd William Williams, Pantycelyn. Dewiswyd rhestr fer o 12 emyn gan reithgor yn cynnwys Yr Athro Derec Llwyd Morgan, Dr Kathrine Jenkins, Trystan Lewis, Robert Nicholls a Delyth Morgans.

Mae modd i chi bleidleisio dros eich hoff emyn drwy ffonio 01443 688500 neu drwy ymweld â safwe Dechrau Canu Dechrau Canmol ar www.s4c.co.uk/dechraucanu

Bydd yr emyn sy'n dod i frig y rhestr yn cael ei ddatgelu mewn rhaglen arbennig o Lido Afan, Port Talbot ar nos Sul, Mawrth 9fed

Dyma'r rhestr o emynau:

EMYN	TÔN	EMYN	TÔN
1. Iesu, difyrrwch f'enaid drud	Grafenberg	7. Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar	Tŷ Ddewi
2. O nefol addfwyn Oen	Rhosymedre	8. Yn Eden, cofiaf hynny byth	Buddugoliaeth
3. Enynaist ynof dân, perffeithiaf dân y nef	Y Faenol	9. Pererin 'wyf mewn anial dir	Amazing Grace
4. O tyred, Iôr tragwyddol	Whitford	10. Dal fi, fy Nuw, dal fi i'r lan	Arizona
5. Iesu, Iesu, 'rwyt ti'n ddigon	Llwynbedw	11. Cudd fy meiau rhag y werin	Tyddyn Llwyn
6. O llefara, addfwyn Iesu	Hyfrydol	12. Tyred, Iesu, i'r anialwch	Blaenwern

Yn gywir *Rob Nicholls* - Golygydd Cynnwys Diwylliant S4C

Hoffech chi Deithio Tramor a Gweld y Byd?

Hoffech chi deithio'r byd a dysgu rhagor am amaethyddiaeth mewn gwledydd eraill? Efallai mai dyma'r cyfle. Mae Ysgoloriaeth Goffa Gareth Raw Rees, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual yn cynnig gwobr o £2,500 i amaethwyr ifanc ddysgu am y diwydiant wrth deithio.

Mae'r ysgoloriaeth, sydd wedi ei ail-enwi eleni yn sgil cefnogaeth o £1,000 gan Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual ar agor i ymgeiswyr sy'n ystyried teithio o fewn y DU, Ewrop neu hyd yn oed ymhellach oddi cartref. Os ydych chi o dan 30- mlwydd oed ac angen cymorth ariannol i deithio, cysylltwch â NFU Cymru am ffurflen gais - hyd yn oed os ydych wedi derbyn cymorth drwy ysgoloriaeth neu gronfa arall.

Dywedodd Dylan Morgan, Cynghorwr Polisi NFU Cymru, "Lansiwyd yr ysgoloriaeth ym 1984 er cof am Gareth Raw Rees MBE, o Geredigion, bu'n hynod weithgar yn hyrwyddo buddiannau pobl ifanc mewn ffermio a chefn gwlad. Roedd yn credu'n gryf fod teithio tramor, a thrwy hynny, profi bywyd gweithiol a diwylliant newydd yn ehangu gorwelion addysgiadol.

"Mae'r Ysgoloriaeth yn cynnig cyfle gwych i bobl ifanc deithio a dysgu am ddulliau ffermio mewn rhannau eraill o'r byd," meddai Peredur Hughes, Cadeirydd NFU Mutual yng Nghymru.

"Gyda'r holl newidiadau o fewn y diwydiant amaethyddol, mae'n hanfodol fod gan ein ffermwyr ifanc ddealltwriaeth eang o'r farchnad er mwyn galluogi iddynt ffermio'n llwyddiannus. Dyma'n union pam fod NFU Mutual mor frwdfrydig yn eu cefnogaeth o'r ysgoloriaeth."

Caiff yr ysgoloriaeth ei reoli gan deulu Gareth Raw Rees, NFU Cymru, NFU Mutual, CFfI Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig a Future Farmers of Wales.

Os hoffech chi dderbyn ffurflen gais, cysylltwch â Dylan Morgan, Cynghorwr Polisi NFU Cymru ar 01982 554200 neu e-bost dylan.morgan@nfu.org.uk

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Mai 2008. Cyhoeddir enw'r enillydd yn Sioe Frenhinol Cymru.

Ruth Lewis

NFU Cymru Tel: 01982 554200, Ffacs:01982 554201, www.nfu-cymru.org.uk

Theatr Bara Caws yn cyflwyno

Y GOBAITH A'R ANGOR

Gosodir drama nesaf Bara Caws mewn tafarn mewn tref fach ddi-nod yn y gogledd. Yn 'Y Gobaith a'r Angor' mae Dylan Rees, sy'n 'sgwennu i'r cwmni am y tro cyntaf, yn cyflwyno criw o gymeriadau trist a ffraegar wrth iddynt rygnu bod o ddydd i ddydd o dan gysgod anobaith a phwysau beunyddiol byw mewn byd sy'n gwegian. Fel pysgod mewn powlen 'dydyn nhw ddim yn ymwybodol eu bod yn mynd o gwmpas mewn cylchoedd yn ail adrodd yr un straeon a'r un sefyllfaoedd nac yn gweld 'chwaith fod pob tro o gwmpas y bowlen yn dro nes i'r gwaelod. Mae'r ddeialog yn fyw ac yn tincial fel y gwydrau sy'n prysur wagio a phob un o'r cymeriadau yn chwilio am ateb gwahanol yn ewyn chwerw gweddillion eu breuddwydion.

Yn llawn hiwmor tywyll, deialog sy'n diferu o fwg y snyg a phigiadau miniog y darts, mae'n addo noson yng nghwmni cymeriadau sy'n gyfarwydd i ni gyd, fydd yn aros yn hir yn y cof.

Yr actorion yw Gwenno Elis Hodgkins, Dyfrig Wyn Evans, John Glyn Owen, Huw Llŷr a Gwyn Vaughan a bydd Maldwyn John sydd â chysylltiadau clos â'r cwmni ers blynyddoedd yn cymryd y llyw fel cyfarwyddwr.

Nos Fercher, 9fed o Ebrill yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Nos Iau, 10fed o Ebrill yn Theatr Felinfach.

GLYN PHILLIPS
Saer Coed ac Asiedydd

Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

D Aled Evans
Plymwr a Pheiriannydd Gwresogi

Gosodwr a Chynhaliwr
- Systemau gwresogi
- Baddonau a chawodydd
- Gwresogyddion mewn lloriau
- Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio

Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎01570 481230 📱 07967 559683

Dyfarniad y Darllenydd



Y Blynyddoedd Rhyfeddol

Meddwl cael babi? Wrthi'n magu plant? Gweithio gyda phlant? Mae mater ymddygiad plentyn yn siŵr o boeni rhai. Ar y llaw arall, gwelwn fod ymddygiad plant yr ardal hon yn arbennig o dda ar y cyfan.

Ond y gwir yw bod pob plentyn yn camymddwyn. Gwnânt hynny am amryw o resymau - weithiau yn syml er mwyn gweld pa mor bell y gallant fentro, neu oherwydd awydd i ddenu sylw. Mae plant eraill, oherwydd eu hanian, yn anoddach i'w magu.

Newydd ei gyhoeddi mae llyfr sy'n rhoi cyngor blaengar i rieni ar wella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol eu plant, ac yn cynnig ffyrdd i helpu plant i fod yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol. Arweinlyfr datrys problemau i rieni sydd â phlant 2-8 oed yw Y Blynyddoedd Rhyfeddol a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Mynd i'r afael â phroblemau plant yn ifanc iawn yw cefndir y llyfr hwn, y cyntaf o'i fath yn y Gymraeg.

Yn yr arweinlyfr mae canllawiau ar gyfer atal problemau ymddygiad plant, a strategaethau a fydd yn helpu rhieni i wella sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac academaidd eu plant.

Awdur y gyfrol yw Dr Carolyn Webster-Stratton, seicolegydd clinigol ym Mhrifysgol Washington. Seiliodd y llyfr hwn ar ei hymchwil dros gyfnod o 25 mlynedd gyda mwy na 3,000 o deuluoedd. Wedi ei addasu i'r Gymraeg, dyma'r llyfr cyntaf o'i fath sy'n rhoi cyngor yn yr iaith Gymraeg i rieni.

Mae'n llyfr sy'n hawdd iawn ei ddilyn, a gellir neidio'n syth at adran o ddiddordeb. Rhoddir sefyllfaoedd posib a dangosir sut i ymateb iddynt. Defnyddir tafodiaith y gogledd mewn deialog, ond nid yw hynny yn amharu ar y cyngor a roddir.

Mae'n gwneud darllen difyr iawn - peth ohono'n synnwyr cyffredin ond llawer ohono'n syniadau ac yn strategaethau ymarferol a defnyddiol. Mae'r adrannau 'Dygymod â Phroblemau Cyfoedion' ac 'Ymgiprys rhwng Brodyr a Chwiorydd' yn arbennig o ddiddorol. Mae'n trafod y busnes o chwarae yn y cartref; datrys problemau gwrthdaro; rheoli dicter; osgoi ffafriaeth, ac osgoi gor-amddiffyn plentyn iau a rhoi gormod o gyfrifoldeb ar blant hŷn.

Dyma ddarllen hanfodol i'r rhai sy'n credu fod blynyddoedd cynnar plentyn yn ddylanwad mawr ar ei ymddygiad yn ystod gweddill ei fywyd - yn ddylanwad ar ei berfformiad yn yr ysgol, yn y gwaith, mewn perthynas ac yn gymdeithasol. Wedi'r cwbl, mae pawb yn ymddwyn yn wahanol iawn - yn blant bach ac yn blant mawr. Ond mae'r ffordd y mae plant bach yn cael eu magu yn dylanwadu ar eu hymddygiad wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion. Mae pawb yn gorfod dysgu sut i ymddwyn a delio ag ymddygiad.

Y Blynyddoedd Rhyfeddol, Gwasg Gomer £16.00

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Yn fy erthygl ddiwethaf, soniais am ymweliad y Gweinidog Iechyd Edwina Hart AC ag Ysbyty Tregaron. Fis yn ddiweddarach, roedd yn fraint cael croesawu'r Gweinidog yn ôl i Geredigion wrth iddi ymweld ag Ysbyty Bronglais. Yn dilyn ymweliad Edwina Hart AC â'r ysbyty, ymunais â hi wrth iddi ymweld â phencadlys yr elusen Ffagl Gobaith. Mae Elizabeth Murphy a'i thîm yn darparu gwasanaeth hosbis gofal lliniarol ar draws Ceredigion ac rwy'n falch iawn bod y Gweinidog wedi cydnabod gwaith pwysig yr elusen hon.

Ddechrau mis Chwefror, derbyniais wahoddiad i ymweld â'r Organic Fresh Food Company yn Llanbedr Pont Steffan. Ychydig dros ddwy flynedd wedi i'r ffatri Organic Farm Foods gau yn y dref, roedd hi'n braf cael dychwelyd i'r un lleoliad a gweld cwmni newydd wedi ei sefydlu yno. Yn ogystal â darparu llysiau organig i fusnesau a sefydliadau ar draws Cymru, maent hefyd yn gwerthu llysiau a bwydydd organig i'r cyhoedd yn gyffredinol drwy'r siop ar y safle. Mae'r modd y sefydlwyd y busnes wrth i nifer o ffermwyr llysiau organig lleol ddod at ei gilydd wedi i'r ffatri wreiddiol yno gau yn galonogol iawn ac rwy'n gobeithio y bydd y cwmni yn mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ne'r Sir, cefais fy ngwahodd yn ddiweddar i annerch cyfarfod o Glwb Rotari Aberteifi am fy ngwaith fel Aelod Cynulliad. Rwyf wastad yn falch iawn cael derbyn gwahoddiadau o'r fath ac esbonio i drigolion lleol am fy ngwaith ym Mae Caerdydd. Ymwelais â Howies yn Aberteifi hefyd yn ystod mis Chwefror. Maent hwythau wedi sefydlu busnes llewyrchus iawn ar hen leoliad ffatri Dewhurst yn y dref, ac rwy'n falch eu bod hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu eu busnes yng Ngorllewin Cymru.

Fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig, roeddwn yn falch iawn i gyhoeddi y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn darparu pecyn iawndal gwerth £8.8 miliwn i ffermwyr defaid yng Nghymru yn dilyn achosion o Glwyf y Traed a'r Genau yn Lloegr y llynedd. Bydd yr arian yma'n cael ei rannu ymysg ffermwyr defaid yn ardaloedd llai ffafriol Cymru, ac fe fydd y rhan fwyaf o ffermwyr defaid Ceredigion yn cael budd o'r pecyn iawndal yma. Mae'r diwydiant ffermio yng Ngheredigion wedi dioddef yn fawr yn sgil y Clwyf ac rwy'n gobeithio y bydd yr arian yma yn rhoi ychydig o gymorth mewn cyfnod sy'n anodd iawn iddynt.

Llanllwni

Colled enfawr

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Mike Edwards, Siop y Pentref a'r Swyddfa Bost. Roedd yn ifanc a gwelir ei eisiau yn fawr iawn gan holl gwsmeriaid y siop. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i wraig a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Ysgol Llanllwni

Gorffennodd Mrs. Moira Jones fel glanheuwraig yr ysgol cyn hanner tymor. Mrs. Diane Davies yw ein glanheuwraig newydd. Gorffennodd Miss. Nia Griffiths gyda'r Clwb Brecwast ac mae Mrs. Sian Harries wedi cymryd ei lle. Pob lwc i chi yn eich swyddi newydd.

Cerddodd plant yr ysgol lawr i Gapel Nonni brynhawn Llun, 28ain o Chwefror i gwrdd â'r Parch. Rheinallt Davies. Cafodd y plant gyfle i ofyn cwestiynau i'r gweinidog a chael tipyn o hanes y capel.

Aeth plant blwyddyn 5 a 6 i weld perfformiad o "Llyncu Geiriau" gan gwmni Arad Goch yn Ysgol Cae'r Felin, Pencader brynhawn dydd Mawrth Chwefror 19.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Chwefror:

£10 – 70 – Mary Evans, Llanerch, Maesycreigiau. £5 – 44 – Geraint Jones, Highview, Llanllwni. £2.50 – 102 – Betsan Jones, Highview, Llanllwni. £2.50 – 34 – Diane Davies, 53 Trewern, Saron. £2.50 - 161 – Daniel Thomas, Bryn, Llanllwni.

Agoriad Swyddogol

Braf oedd gweld dros 200 o bobl wedi dod ynghyd i ddathlu agoriad swyddogol Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni a'i gweld ar ei newydd wedd ar yr 16eg o Chwefror. Cafodd y plant lawer o sbort mewn sesiwn ymarfer corff gyda 'J's Workout'. Bu yna ddiddordeb mawr yn arddangosfa Llyfr y Degwm a hanes yr ardal. Gwnaeth nifer o bobl gymryd rhan yn y gweithgareddau a chael tipyn o hwyl wrth greu cardiau ac arddangosfeydd blodau. 'Roedd yn fraint gwahodd yn ôl berson adnabyddus i bawb, sef Mrs Nancy Jones, Brynheulwen, Llanbed i agor y neuadd. Cafwyd te parti ysblennydd i ddathlu a diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth baratoi'r wledd. Cafwyd arian ar gyfer yr agoriad swyddogol gan gynllun PACT Cyngor Sir Gâr, a chynllun Milltir Sgwâr.

Gyda'r gwaith o drawsnewid y neuadd wedi ei gwblhau, mae yna dipyn o ddefnydd yn cael ei wneud ohoni. Mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cwrdd yno bob nos Fawrth, Ysgol Sul Llanllwni yn cwrdd yno ar y Sul ac Undeb y Mamau yn cwrdd yn fisol. Mae cwrs cyfrifiadurol Cyswllt Ffermio yn dechrau ym mis Mawrth. Yn ogystal â'r gweithgareddau yma, mae nifer o bobl wedi dangos diddordeb i fynychu cyrsiau yn y neuadd ar ymarfer corff, tylino babanod, gwaith crefft a nifer yn dangos diddordeb mawr mewn cyrsiau cyfrifiadurol. Y bwriad yw trefnu cyrsiau os oes digon o ddiddordeb, felly os ydych am ddod i gwrs neu logi'r neuadd cysylltwch â Meinir Evans ar 01559 395 699 neu Mike Harrington 01559 395 342.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Raymond Thomas, Manordeify ar ôl marwolaeth ei briod Doris yn ddiweddar.

Hefyd, gyda'r teulu y diweddar Jane Thomas, 23 Bryndulais (Gwarbrest) gynt, yn enwedig Marina a Cyril a Geraint a Bethan. Yr oedd yn ei 98 blwyddyn a hi oedd y person hynaf ym mhlwyf Llanllwni.

Diolch

Dymuna John, 13 Bryndulais ddiolch am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei ben-blwydd yn 65 oed.

Hefyd, dymuna Lorraine Edwards, Swyddfa'r Post estyn ei diolch gwresocaf am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod gwaeledd Michael ei gŵr yn Ysbyty Treforys ac yna yn hwyrach dangoswyd cariad anhygoel pan gollodd Michael ei fywyd mor ifanc, ac ni fedrai unrhyw eiriau fyth fod yn ddigonol i ddatgan ein diolchgarwch. Mae'r wythnosau olaf wedi gwir ddangos haelioni a charedigrwydd y gymuned gyfan, felly boed i chwi i gyd dderbyn ein diolch, a hynny o waelod calon. Er mae cyfnod byr y buom yng ngofal y Swyddfa Bost a'r Siop y Pentref, rydym wedi gwerthfawrogi yn fawr eich cwstwm, ond yn arbennig eich cyfeillgarwch.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eirlys a Gary, Cwmderi ar enedigaeth eu merch fach Alwena Mair. Pob dymuniad da iddynt fel teulu heb anghofio tad-cu a mam-gu yn Abercwm.

Colli tinc y botel laeth

Ar ôl blynyddoedd o wasanaeth o ddod a'r llaeth i'r drws bob bore, y mae Derek ac Anita, Frongelli yn gorffen ar Fawrth 1af – yn ardal Llanllwni a Maesycrugiau. Hoffai pawb ddiolch am wasanaeth diflino a dymuno pob dymuniad da iddynt.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Dilwyn Davies, Blaencarneuadd a John ei frawd ar farwolaeth brawd arall, sef Glasfryn Davies, Prengwyn. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lewis a Betty Davies, Beilibach ar ddod yn hen dad-cu a mam-gu i efeilliaid sef Ariana May a Gethin Mark a anwyd i Elfryn a Tami yn yr Unol Daleithiau.

Cyngor Bro Llanllwni

Cyfarfod yn Festri Nonni gydag wyth o aelodau yn bresennol ynghyd â Fioled Jones, Cynghorydd Sir.

Llwybrau Cyhoeddus - Mae gwaith wedi ei wneud yn ddiweddar ar rai o'r llwybrau yn enwedig Goytre allan i'r Mynydd a hefyd Felinfach - Bryn. Gobeithio cael cymhorthdal o'r Cyngor Sir.

Y mae cyfarfod arbennig wedi ei drefnu gyda'r Cyngor Sir i geisio cael goleuadau arafu y tu allan i'r ysgol.

Cadarnhawyd fod cysgodfan bysys wedi ei adeiladu gyferbyn â Thafarn Talardd ger y blwch Teleffon.

Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir am grant o £9,000 tuag at y flwyddyn ariannol 2008/09 – yr un fath a llynedd.

Cynllunio - 3 tŷ ar dir Gerynant wedi cael caniatâd. Tŷ ger Cefncoed Uchaf, wedi ei wrthod. Gofynnwyd am ganiatâd i roi main car sgwâr Penrheolnewydd - gofynnwyd i'r Cyngor Sir a oedd angen caniatâd cyn rhoi ateb. Nid oedd Cynghorwyr yn teimlo bod angen i'r Cyngor Bro gyfrannu.

Unwaith eto mynegwyd pryder fod llifogydd wedi bod yn Glynrhiced / Penrheolnewydd, Abergiar a ger y Swyddfa Bost – rhaid cysylltu ar frys â'r Cyngor Sir.

Caniatawyd y rhoddion canlynol – Y Groes Goch - £25, Cruse Cymru - £25, Bopath Cymru - £25 a Marie Curie - £100.

Cafwyd cyfarfod arbennig i drafod cais i godi byngalo ar dir Glynrhiced Fawr. Yr oedd yr aelodau yn unfrydol dros y cais gan fod yr angen i gadw bechgyn ifanc i weithio yn yr ardal – y mae'r ceisiwr wedi bod yn gweithio yn lleol am dros 15 mlynedd ac ni fyddai angen unrhyw agoriad ychwanegol allan i'r ffordd.

Cylch Meithrin Llanllwni
Dydd Llun Dydd Mawrth
a Dydd Mercher
8.40 – 12.00

Cylch Ti a Fi
Sesiwn i famau, babanod
a phlant bach
Dydd Llun 10.30 – 11.30

yn Ysgol Gynradd Llanllwni
Arweinydd:
Janet Jones 01570 480294
Cadeirydd:
Meinir Davies 07814006278

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen
Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Migranines
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Yn Eisiau – Cynorthwy-ydd
Cyflog – i'w drafod
Oriau - Bore Llun,
Bore Mawrth a Bore Mercher

Cymwysterau: NVQ Lefel 2 ym Maes Gofal ac Addysg Blynyddoedd Cynnar. (Neu yn gweithio tuag at hyn neu â diddordeb i weithio tuag at hyn.)

Cysylltwch â Janet Jones (Arweinydd) 01570 480294, neu Meinir Davies (Cadeirydd) 07814 006278

Ffarmers

Pen-blwydd hapus

Pleser dechrau newyddion yr ardal wrth ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Mrs Eirwen Lewis, Ty'nddol ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed. Estynnwn ein cyfarchion gorau iddi ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn. Pob hwyl i chi.

Ambiwlans Awyr Cymru

Ymwelodd Mrs Ann Edwards o Dregaron â Ffarmers ar y 12fed o Chwefror i dderbyn siec o £540 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Codwyd yr arian yma yn y Gwasanaeth Carolau blynyddol a drefnir yn Neuadd Bro Fana ar y Sul cyn y Nadolig, ac roeddem yn ffodus i gael cefnogaeth barod Lowri Davies o Fanc Barclays a noddodd y noson gyda'r cynllun £1 am £1. Yn ei haraith, diolchodd Mrs Edwards i bawb am eu cefnogaeth barod, gan ddweud fod y gwasanaeth arbennig yma yn hollol ddibynnol ar y math yma o gefnogaeth ariannol.

Lloffa

Daeth Yr Athro David Thorne o Goleg Dewi Sant i'r Neuadd ar nos Fawrth yr 11eg o Chwefror a chafwyd noson ddifyr yn 'lloffa ym myd enwau lleoedd lleol'. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am darddiad enwau rhai o'r lleoedd o gwmpas yr ardal yma, nifer ohonynt yn dyddio 'nôl ganrifoedd lawer. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r cynllun 'Milltir Sgwâr' am noddi'r noson. Mae'r cynllun yma wedi cefnogi nifer o nosweithiau addysgiadol yn Neuadd Bro Fana dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac wedi ein galluogi i wahodd siaradwyr o safon i ddarlithio i ni. Cafwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd hefyd ar gyfer y rhai nad ydynt yn deall Cymraeg.

Trwydded Cludo Anifeiliaid

Yn Neuadd Bro Fana ddechrau'r mis manteisiodd tua wyth deg o ffermwyr ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant a sefyll prawf ar gyfer cael trwydded i gludo anifeiliad. Roedd yna ffermwyr o Dregaron i Lanfynydd, ac o Lanwnnen i Lanymddyfri, y rhan fwyaf ohonynt yn cymyd y prawf ar liniadur. Darparwyd y cwrs gan 'Ganolfan Asesu Canolbarth Cymru a'r Gororau.' Diolch i John Mercer a Rhys Davies am wneud y trefniadau.

Cefnogaeth ariannol

Dymuna Cyngor Rheolaeth Neuadd Bro Fana ddiolch o galon i'r Cynghorydd Eirwyn Williams am sicrhau £800 o Gronfa Prosiectau Lleol y Cyngor Sir. Mae'r arian yma i'w ddosbarthu gan gynghorwyr i fudiadau gwirfoddol yn eu hetholaethau.

Ail-gylchu

Os oes gennych hen getris inc o'ch argraffydd, gallwch fynd â hwy i'r Swyddfa Bost yn Ffarmers a'u gadael mewn blwch ail-gylchu arbennig. Bydd y blwch yn cael ei wacáu yn rheolaidd ac fe fydd y Neuadd yn derbyn tâl yn gydnabyddiaeth am ail-gylchu.

Archif gymunedol o hen luniau

Cafwyd penwythnos prysur dros ben o'r 22ain i'r 24ain o Chwefror pan ddaeth llu o drigolion yr ardal, ynghyd â chyfeillion â chysylltiad agos â'r fro, â thoreth o hen luniau ganddynt i'r Neuadd ar gyfer eu sganio a'u cadw ar gyfrifiadur. Y bwriad yw creu archif gymunedol o luniau sydd yn rhoi darlun o fywyd ym mhlwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys dros y ganrif ddiwethaf. Mae'r casgliad hyd yma yn cynnwys dros 1,000 o luniau yn ymwneud â bywyd cymdeithasol, addysg, crefydd, a gwaith yn yr ardal, ynghyd â golygfeydd o'r pentrefi a'r wlad oddi amgylch, a cheir ynddynt ddarlun ardderchog o fywyd bro yn ymestyn yn ôl dros ganrif, a diddorol yw nodi i ba raddau y mae bywyd y trigolion wedi newid dros y cyfnod yma. Daeth dros hanner cant o bobl i'r sesiynau sganio, a braf oedd nodi fod manylion am nifer o'r lluniau hynaf wedi eu hysgrifennu ar gefn y llun gyda'r dyddiad, manylion yr achlysur ac enwau'r unigolion, ac yn y blaen. Yn ogystal â chreu archif, profodd y pen wythnos yn gyfle gwych i gymdeithasu gyda sawl clonc ddifyr yn cymryd lle dros baned o de. Diolch i bawb a aeth i'r drafferth i chwilio am luniau a dod â hwy i'r Neuadd ac i'r criw a fu'n brysur yn sganio, cofnodi manylion a pharatoi lluniaeth. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi cymorth ariannol gan Gronfa Milltir Sgwâr ar gyfer y prosiect. Y gobaith yw trefnu arddangosfa o'r hen luniau yn y Neuadd yn ystod misoedd y gaeaf nesaf. Os oes gan unrhyw un luniau diddorol, ond wedi methu â dod i'r sesiynau, cysylltwch ag aelodau Cyngor y Neuadd, a gellir gwneud trefniadau i'w sganio rhyw noson.

Noson o Gaws a Gwin

Cynhelir Noson Caws a Gwin yn y Neuadd ar nos Wener y 23ain o Fai am 8.00 o'r gloch. Yn ogystal â chael mwynhau gwydred neu ddau o win, bydd yna hefyd gyfle i flasu amrywiaeth o gaws ac mi fydd Mr. Maugan Trethowan o gwmni 'Caws Gorwydd' Llanddewi Brefi yn ymuno â ni i sôn am y broses o wneud caws. Mae'r cwmni yma yn cynhyrchu Caws Caerffili sydd yn hynod boblogaidd ac yn cael ei ddosbarthu'n eang a'i allforio. Bydd yna hefyd arbenigwr ar winoedd yn ymuno â ni i rannu rhai o gyfrinachau'r diwydiant gwin. Dyma gyfle i chi fwynhau a dysgu yr un pryd. Mae croeso i chi ymuno â ni.

Llangybi

Ysgol y Dderi

Plant Ysgol y Dderi yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tseineaidd drwy ddysgu ysgrifennu Tsieinëeg.

Mae hi wedi bod yn amser trist yn Y Dderi gan ein bod wedi gorfod ffarwelio â dau aelod o staff. Mae Geoff ein gofalwr a Linda ein cogyddes wedi bod yn aelodau gwerthfawr iawn o'r tîm ers blynyddoedd, ac roedd y ddau ohonynt bob amser yn barod i'n helpu. Dymuniadau gorau iddynt yn y fenter newydd yn Ninbych Y Pysgod. Croeso cynnes i Siw Owens ein cogyddes newydd ac i Heulwen Jones a fydd yn ei chynorthwyo ac hefyd i Roger Hartwell ein gofalwr newydd. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn gyda ni.

Llongyfarchiadau i Nathan Parks a Tanith Graham am ennill gwobrau mewn cystadleuaeth i greu lantern Tsieineaidd. Trefnwyd y gystadleuaeth yn rhan o ddathliadau'r flwyddyn Tsieineaidd newydd. Bu plant blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau ac yn dathlu mewn steil yn y Brifysgol yn Llanbed.

Croesawyd cwmni theatr Arad Goch atom i gyflwyno sioe 'Llyncu Geiriau'. Cafwyd perfformiad gwych a gweithdy pwrpasol iawn.

Llongyfarchiadau i Mrs Mair Spate am ennill gwobr y 'Cambrian News' am fod yn weithgar yn ei chymuned. Mae'n llwyr haeddu'r wobr.

Ydych chi erioed wedi meddwl am agor garej, cael busnes DIY eich hun, neu gynnig gwasanaeth?

Oes gennych chi syniad, ond ddim yn siwr beth i 'w wneud amdano?

Oes angen cymorth arnoch i ddatblygu eich syniadau?

Rydym yn cynnig:

Gwybodaeth am hyfforddiant a chyllido
Trafodaethau un-i-un a chyrsiau di-dâl
Cymorth gyda chostau gofal plant
Gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn
Cefnogaeth i ddatblygu hunangyflogaeth a'ch syniadau busnes chi
Cymorth i ddatblygu cynllun gwaith i gyrraedd eich nodau
Canllawiau ar gydbwysedd gwaith a bywyd
Awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol

Cynigir gwasanaeth cefnogi a gwybodaeth cyn-busnes di-dâl a gaiff ei ddarparu i gwrdd ag anghenion y cleient.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Jane Pugh, Antur Teifi 01239 621828

Antur Teifi

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yn y Gegin gyda Gareth

'Paratoi at y Pasg'

Mae bob amser yn hyfryd cael y teulu ynghyd dros gyfnod y Pasg. Golyga hyn fod rhaid meddwl am brydiau pwrpasol i fwydo pawb.

Mae yna gymaint o fwydydd sy'n dod i'w tymor yr adeg yma. Gobeithio y cewch flas ar y rysetiau yma wrth fwynhau dathliadau'r Pasg.

Pasg blasus ac hapus,

Gareth.

Brecwast Bore'r Pasg - Ŵy Pasg a pherlysiau.

Cynhwysion

- 4 ŵy organig mawr
- 2 lond llwy fwrdd o hufen
- 1 llond llwy bwdin o berlysiau ffres
- Ychydig o fenyn

Dull

1. Torrwch dop yr ŵy ac yn ofalus arllwyswch y cynnwys i fasn. Golchwch tu mewn y plisgyn yn ofalus gyda dŵr a sebon. Rhowch dan y tap a gadewch i sychu.
2. Curwch yr wyau gyda'r hufen a'r perlysiau. Ychwanegwch ychydig halen i'w flasu. Cynheswch ychydig fenyn mewn padell ffrio. Ychwanegwch y gymysgedd wyau a ffreiwch nes bod y gymysgedd yn barod.
3. Llenwch y plisgyn ŵy a gweinwch.

Cacennau Simnel Syml

Cynhwysion

- 175 gram o fenyn wedi'i feddalu
- 175 gram o siwgwr caster
- 225 gram o fflŵr plaen
- 1 llond llwy de o bowdwr codi
- 1 llond llwy de o sbeis cymysg
- 300 gram o ffrwythau sych cymysg
- 100 gram o almwn wedi'u darnio
- 3 ŵy
- Sest a sudd un oren
- 100 gram o farsipan
- 2 llond llwy fwrdd o jam bricyll / ychydig o wyau siocled.

Dull

1. Trowch y ffwrn i 160°C; 325°F; Nwy 3. Irwch 12 tun muffin.
2. Curwch y menyn, siwgwr, wyau a'r blawd ac wedyn ychwanegwch y sbeis a'r blawd codi.
3. Plygwch y ffrwythau a'r cnau i'r gymysgedd. Rhennwch rhwng y 12 tun, a rhowch yn y ffwrn am 40 munud. Gadewch i oeri.
4. Torrwch 12 cylch o bast almwn ac yna gwasgarwch ychydig o jam ar wyneb y cacennau i lynu'r past almwn a'r addurn o wyau'r Pasg.

Pwdin y Grôg.

Cynhwysion

- 6 bynen y Pasg
- Menyn
- Cwrd lemon
- 1 peint o laeth
- 3 ŵy
- 3 llond llwy fwrdd o siwgwr.

Dull

1. Hanerwch y byns a thaenwch y menyn a'r cwrd lemon drostynt. Gwnewch yn frechdan.
2. Gosodwch mewn dysgl wedi'i hiro. Cymysgwch y llaeth, wyau a'r siwgwr ac arllwyswch dros y byns. Gadewch i aros am 30 munud.
3. Pobwch am 25 munud ar wres o 180° C; 350°F; Nwy 4.
4. Sgeintiwch â siwgwr eisin a gweinwch gyda hufen.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Y byd yn troi – yn Nyffryn Teifi a China

Rhyw ddwywaith y flwyddyn mi fydd hen fan yn aros y tu allan i swyddfa Golwg yn Llanbed, ac mi fydda' i'n gwybod yn syth pwy sydd yno.

Petaech chi'n edrych i mewn, mi allech weld fod hon yn fwy na fan i yrru o le i le. Mi fyddech chi'n gweld fod gwely yno hefyd a chamera neu ddau ynghanol y trugareddau.

Ymhen ychydig funudau, mi fydd Rhodri Jones yno, gyda'i wên braf a'i ysgwyd llaw cadarn, a disg CD o'i luniau diweddara'. Rhif car o'r Eidal sydd ar y fan, ond dyn o Ddyffryn Ogwen yw hwn ac mae'n ffotograffydd sy'n cael sylw rhyngwladol.

Un o'i ffans ydi'r DJ di-amser, Richard Rees, sydd wedi gwirioni ar y lluniau a dynnodd o ar gyfer llyfryn i fynd gyda CD ddiweddara' y canwr Steve Eaves, Moelyci.

Mae gan Rhodri Jones o leia' ddau lyfr i'w enw, ac un arall ar y ffordd cyn bo hir. Un, o'r enw Dod yn ôl, yn lluniau o Gymru, a'r ddau arall yn lluniau o China – yno, meddai o, y mae stori fawr y byd yn ein dyddiau ni.

"Dim diddordeb i Lanbed," meddech chithau, nes i chi weld y ffotograffau, sy'n benna' mewn du a gwyn. Ar lefel arall, mae ein stori ninnau ynddyn nhw, a stori cefn gwlad trwy'r byd.

Rhywdro yn ystod y misoedd diwetha' y digwyddodd newid anferth. Mi symudodd rhyw berson yn rhywle o'r wlad i'r dre' ac, am y tro cynta' yn hanes y byd, roedd mwyafrif pobol y blaned yn byw mewn ardaloedd trefol.

Dyna'r stori sydd yn lluniau diweddara' Rhodri Jones – yn China, mae o'n credu fod 200 miliwn o bobol eisoes wedi symud o'r wlad, a bod 200 miliwn arall ar y ffordd. Mi fydd un neu ddau yn llwyddo ac yn gwneud ffortiwn; mi fydd llawer rhagor yn diweddu mewn trefi shanti, neu yn crafangu byw. Yn y wlad, mi fydd pentrefi'n marw.

Stori arall Rhodri Jones yw honno am leiafrifoedd. I ni, mae poblogaeth y wlad anferth honno yn ymddangos yn un; mewn gwirionedd, mae yna gannoedd o ddiwylliannau bach.

Mewn sawl rhan, mae'r rheiny'n cael eu dinistrio; gan gynlluniau anferth i foddi a chreu cronfeydd dŵr neu gan ymgais fwriadol y Llywodraeth i symud Chineaid 'go iawn' i mewn i'w hardaloedd nhw.

Yno, mae peth o'r symud mawr a'r newid yn digwydd yn hollol fwriadol; yng Nghymru, ac yn ardal Llanbed, mae'n digwydd oherwydd grym economaidd ac, yn rhannol, trwy bolisi.

Yn China, mae pobol cefn gwlad, a'r lleiafrifoedd, fel y creaduriaid bach hynny yn y môr sy'n glynu'n dynn ar graig wrth i'r llanw eu tynnu a'u taflu yn ôl ac ymlaen. Beth amdanon ni?

Pa fath o fyd?

Roedd hi'n naturiol fod amryw o bobol yn siomedig am na fydd papur dyddiol Cymraeg. Mae'n freuddwyd sydd wedi rhygnu yn ei blaen ers blynyddoedd ac, am y tro cynta', roedd rhywrai wedi gwneud mwy na siarad.

Er hynny, doedd yr arwyddion erioed yn rhy obeithiol i Y Byd. Dim ond un neu ddau o bapurau dyddiol gwirioneddol lwyddiannus sydd wedi eu sefydlu yn Saesneg yn ystod y ganrif ddiwetha', felly roedd y dasg yn un anferth.

Yn ôl yn 1924, mi ddywedodd un o newyddiadurwyr mawr ei ddydd, E. Morgan Humphreys, fod y cyfle i greu papur newydd dyddiol Cymraeg eisoes wedi ei golli. Ond mi ddywedodd dro arall fod gwasg fywiog yn hanfodol i unrhyw genedl.

Cadw allan o'r ddadl a wnaeth Golwg mewn gwirionedd. I ni, roedd hi'n bwysig cynnal yr hyn sydd wedi ei greu yn Llanbed – rhag rhoi'r wyau i gyd yn un fasged petai'r Byd yn methu, ac er mwyn amrywiaeth petai'n llwyddo.

Ein bwriad bellach ydi trio creu fersiwn y dyfodol o bapur dyddiol – gwasanaeth newyddion ar-lein a fydd yn bwydo i mewn i'r cylchgrawn papur. Os llwyddwn ni, siawns na fydd rhagor o swyddi yn dod i Lanbed.

A wnawn ni lwyddo? Fel y dywed gohebwyr Radio Cymru, "Amser yn unig a ddengys". Amser ... a bach o arian a lwc a brwdfrydedd.

Annwyl Gyfaill,
Gweler isod fanylion ynglyn a deiseb sy'n galw am fwy o arian gan Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu Papur Dyddiol Cymraeg. A fyddai modd i chi gynnwys y manylion yn eich rhifyn nesaf o'r Papur Bro?
Cofion,
Hedd Gwynfor - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un:

http://deiseb.cymdeithas.org/

Cega !!!

gan Llinos Dafydd

Prosiect PAPURAU Bro Ceredigion a Sir Benfro

Shwmai bobol? Mae'r gwanwyn wedi dod o'r diwedd, sy'n golygu bod tymor yr haf yn nesáu. Hwre… haul, haul a mwy o haul. Anghofiwn ni am yr arholiadau sydd ar y gorwel!

Y rhod yn troi

Os ei di i dwrio yng nghwpwrdd dy fam a dy dad, falle ddoi di ar draws ambell i finyl – cd's eu hoes nhw nôl yn y 70au!

Daeth diwedd cyhoeddi cerddoriaeth ar finyl yn 1988 i label Sain, felly pwy feddyliai y byddai'r cwmni'n rhyddhau fersiwn newydd o'r gân 'Dŵr' (sef y gân enwog honno gan Huw Jones a lawnsiodd y label yn 1969), gan y rapiwr o Lanuwchllyn, MC Saizmundo, ar finyl, bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach?!

Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer y fersiwn newydd o nifer o lefydd amrywiol, meddai MC Saizmundo, ac mae'n cydnabod y bu taith ddiweddar yn Ne America yn gyfle da i gydweithio a rhannu syniadau gyda rapwyr o wahanol gefndiroedd.

"Ma' rapwyr, ble bynnag maen nhw, wastad wedi bod yn samplo hen gerddoriaeth a chreu re-mix fresh a gwahanol. A dyna pam nes i feddwl am samplo hen gerddoriaeth bop Gymraeg o'r chwedegau, ddim fi fydd y cynta' na'r ola'. Mae safon y gerddoriaeth a ddaeth yr adeg hynny yn wych a mae gynnoch chi ganeuon anhygoel ac ma'n grêt eu bod nhw'n cael eu hailddarganfod unwaith eto a'u cyflwyno i gynulleidfaoedd newydd trwy gasgliadau fel y Welsh Rarebeat gan Finders Keepers ac yn y blaen."

Prif bwrpas y daith, meddai, oedd olrhain camau'r bardd o Ryd-ddu, T.H. Parry Williams pan fu'n teithio o gwmpas Canol a De America ym 1925. Aeth y daith â fe i Giwba, Panama, Periw, Chile, Yr Ariannin a Brasil ac mae Ffilmiau'r Nant wedi cofnodi'r cwbl ar ffurf rhaglen arbennig fydd yn cael ei ddarlledu ar S4C yn fuan.

Ond daeth ysbrydoliaeth i eiriau'r gân 'Dŵr Dau' o'i ardal enedigol, meddai, a'r ffactorau gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol sy'n fygythiad iddi.

"Pan o'n i'n gyrru heibio Llyn Celyn yn ddiweddar, nes i feddwl, efo'r newid hinsawdd a ballu mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd Lloegr yn sychu fyny yn grimp a Chymru yn cael mwy o law.

"A be fydd canlyniadau hynny tybed? Wrth i ddiwydiant ddiodde', fydde yna alw am ddŵr ac o bosib os na fyddwn ni'n ofalus mi fydd Llywodraeth Llundain/Lloegr a diwydiant yn gyffredinol yn mynnu bod angen boddi dyffrynnoedd i gyflenwi'r angen.

Ai Cymru fydd dan fygythiad ella? A dyna pam nes i alw hi'n Dŵr Dau, cyfuno geiriau newydd â hen gân.

"Ma' dŵr wedi bod yn hen broblem yng Nghymru erioed ond mae'n dal yn berthnasol heddiw. Ai Dŵr fydd yr olew newydd yn y dyfodol? A dyna le ges i'r syniad."

Mae'r ail drac, 'Dyma'r Agenda', yn gân sinigaidd sy'n son am ffads y mileniwm newydd - newyddion 24 awr, myspace, facebook, bwyd organig, y ffôn symudol, cemegion peryg a brand names byd-enwog.

"Rydan ni gyd wedi ein swyno a does dim modd cuddio rhag yr oes dechnolegol a'r byd hysbysebu," meddai.

Dydi diddordeb MC SAIZMUNDO yng ngherddoriaeth y 70au ddim yn gorffen gyda 'Dŵr Dau' gan ei fod wedi dechrau ar brosiect newydd yn barod - 'y Docfeistr'. Prosiect sy'n son am gymeriad chwedlonol a sinister o'r môr sy'n dilyn ysbryd operâu roc y gorffennol fel Nia Ben Aur. Mae nifer o artistiaid cyfoes megis Gruff Rhys, Mr Huw, Endaf Presli, Pwsi Meri Mew, MC Mabon a'r Llongau wedi cyfrannu i'r prosiect hefyd. Bydd yr albym allan cyn bo hir.



Llygaid sgwâr…a blinedig - rant Dylan Wyn Williams

Dw i'n filain gyda BBC One a Channel Five. Dyma lle rydw i'n dilyn dwy raglen newydd Americanaidd yn slafaidd am y tro cyntaf ers Heroes, a beth sy'n digwydd? Mae'r pen bandits yn penderfynu potsian a'u symud i slotiau gefn liw nos.

Ar y Bîb, mae'r gyfres orwych am hen gnawes galed o dwrnai yn Efrog Newydd, Damages, lle mae Glenn Close (a enillodd deitl 'Actores Orau' yn y Golden Globes eleni) yn gwneud i Cruella De Ville ymddangos fel tedi bêr bach del, wedi symud i nosweithiau Llun am 10.35pm - a gyda phob pennod bron yn awr o hyd, mae hi braidd yn hwyr er mwyn codi cyn cŵn Caer(dydd) drannoeth.

Pam na ffeindian nhw slot gall 9 o'r gloch iddi ar BBC2 neu BBC Four hyd yn oed?

Mae'r bumed sianel, sydd fel arfer yn destun clod (CSI newydd sbon a gwaredwyr mawr Neighbours o'r Bîb), yn fwy euog byth am focha o gwmpas gyda'r mewnforion Americanaidd.

30 Rock ydi'r rhaglen gomedi ddoniolaf dwi wedi'i gweld ers hydoedd, wedi ei gosod mewn stiwdio deledu yn adeilad enwog 30 Rockerfeller Plaza, Efrog Newydd (eto!) ac sy'n dilyn hynt a helynt Liz Lemon (Tina Fey), prif sgwennwr sioe gomedi, i gael trefn o'r anhrefn llwyr yn ei bywyd proffesiynol a chymdeithasol.

Rhwng pawb a phopeth, gan gynnwys prif weithredwr ecsentrig y rhwydwaith, Jack Donaghy (Alec Baldwin pesgedig!), mae ganddi fynydd Hiraethog o dasg o'i blaen. Mae'n amlwg fod y ffigurau gwylio'n go giami, gan fod Five wedi'i symud o 10.40 i 11.05pm a'i thynghedu i bydru nes cael ei gwaredu'n llwyr. Damia, damia, damia nhw.

Antur Teifi

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 — Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

LLEOL I MI Canolbarth — PAPURAU BRO — NEUADD GOFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

Rhwydwaith PAPURAU Bro

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw:
Cyfeiriad:

Cod post:
Rhif Ffôn:

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	8		6		2	9	5	
			4	5	9			
		3			7		4	2
	4		7				6	3
		5		6		7		
3	7				1		9	
7	6		9			4		
			5	1	4			
	5	2	3		6		1	

Dyma atebion rhifyn Rhagfyr:

9	3	5	1	2	7	4	8	6
2	4	1	6	8	3	9	5	7
8	7	6	9	5	4	2	3	1
7	1	2	3	9	5	6	4	8
3	6	8	4	1	2	5	7	9
5	9	4	7	6	8	1	2	3
4	8	9	2	3	6	7	1	5
1	2	3	5	7	9	8	6	4
6	5	7	8	4	1	3	9	2

Rhifyn mis Ebrill
Yn y Siopau
Ebrill 3ydd
Erthyglau i law erbyn
Mawrth 20fed
Newyddion i law erbyn
Mawrth 25ain

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd yn o lew ac yn barod i liwio llun y mis hwn. Ar hyn o bryd rwy'n teimlo'n sâl, wedi bwyta gormod o wyau Pasg! Mae'r gragen fach yn gwasgu'n ofnadwy rownd fy mola. Gobeithio eich bod chi'n gallach na fi y Pasg hwn.

Wel, mae'r gwaith lliwio wedi bod yn arbennig y mis hwn gyda chlod arbennig i Lewis Thomas, o Lanllwni, Sioned Fflur a Nia Haf o Lanybydder, Catrin Jones o Lanwnnen a Miriam Butcher o Gaerdydd. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Cari Seren Davies, Lake View, Abergwili, Caerfyrddin. Llongyfarchiadau a da iawn chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfon ataf erbyn 20fed Mawrth.





Enw:

Cyfeiriad:

Enillydd y mis!

Cari Seren Davies

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci

Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎ **01570 423135**
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Taith Cerdded Cymdeithas Edward Llwyd

Fore Sadwrn yr ail o Chwefror roedd 33 o aelodau Cymdeithas Edward Llwyd wedi ymgynnull wrth fynedfa coedwig Allt Maes-troyddyn ger Hafod y Maidd, Harford, gyda chynrychiolaeth gref yn dod o dalgylch Clonc a dwy wedi dod o ardal Caerdydd! Roedd y tywydd yn braf a chlir ar waetha'r arbenigwyr tywydd a oedd wedi darogan eira mawr ychydig ddyddiau ynghynt. Ieuan Roberts oedd yr arweinydd am y dydd ac ar ôl rhoi croeso i bawb awgrymodd mai taith i naturiaetha fyddai hon gan ddwyn sylw arbennig at y mwsoglau a'r cen gan fod rhain yn dipyn mwy amlwg yn y Gaeaf. Ar y pryd gwelwyd twmpath mawr o frigau yn uchel yn un o'r coed llarwydd – ysgubell y wrach y llarwydd oedd hwn a achosir, fel ysgubell y wrach y fedwen, gan ffwng yn sefydlu ei hun ar un blagur a hwnnw'n peri i'r blagur dyfu'n ddireolaeth.

Dechreuwyd cerdded ar hyd yr heol i gyfeiriad Maestroyddyn Fawr gan sylwi ar y pluddailfwsogl yn gorchuddio rhisgl y coed a'r ffwng clust yr Iddew yn tyfu ar goeden ysgawen. Ar y groesffordd, troi i'r chwith a cherdded hyd y llwybr ceffyl heibio Maesdu cyn dod at y clawdd o goed ffawydd ble roedd sawl math o gen diddorol yn cynnwys clustiau'r ddaear, cen cwpan doli a chen rheilffordd. Caiff yr enw hwnnw gan ei fod yn tyfu ar ffurf llwyn yn debyg iawn i goed bach ac fe'i defnyddir ar ôl ei sychu i gynrychioli coed mewn modelau o reilffordd!

Ymhen tua chwarter milltir roeddem wedi cerdded ymhell iawn gan ein bod yn edrych i lawr ar fferm Llundain ac ardal Esgairdawe yn gefndir iddo. Uwch fferm Pyllau, troi i'r chwith ar y llwybr troed heibio Keeper's Lodge ac yna cadw i gyfeiriad Cwm Einon Fawr. Ar y ffordd, gweld y mwsogl cyffredin iawn sef mwsogl rhedynaidd y coed ac yna lwmpyn crwn caled a achosodd gryn benbleth i rai cyn i'r milfeddyg ddatgelu mai pen bwlyn cymal y glun oedd unwaith yn perthyn i eidion oedd hwn. Arhoswyd i gael cinio ger coeden dderw fawr a sylwi ar y fforchfwsogl yn tyfu arni a chael llun da o'r criw i gyd. Wrth groesi'r afon ger Cwm Einon Fawr gwelsom y ffwng, cwpan robin goch gyda'i gwpanau coch lliwgar. A oedd hwn tybed yn argoel o ganlyniad da yn y rygbi yn nes ymlaen?

Yng Nghwm Einon Fawr cymerwyd y llwybr i gyfeiriad Coed y Gôf ac yna Pistyll Gwyn Bach. Ar risgl coed celyn ar y llwybr i'r Berllan Dywyll gwelwyd sawl engrhaifft dda o'r cen ysgrifen y bwgan a chen cefnwyn y coed ar frigau coed derw. Wrth gerdded hyd y ffordd yn ôl i'r ceir buom yn cymharu llawredyn y fagwyr a gwib redyn a oedd yn tyfu yn y clawdd.

Cyrraedd yn ôl i'r ceir cyn i'r glaw ddechrau, taith o bedair milltir a thri chwarter, am hanner awr wedi dau a rhoi cyfle i bawb gyrraedd adref i weld Cymru yn trechu Lloegr ac felly gwireddu argoelion y cwpan robin goch!

Ieuan H Roberts

Cerddorfa Siambr Llanbedr Pont Steffan

Cerddorfa Siambr Llambed yn perfformio yn Neuadd Bro Fana Ffarmers ar y 27ain o Ionawr.

O geiniog i geiniog...

£540 o siec gan Neuadd Bro Fana, Ffarmers i Ambiwlans Awyr - Irwel Jones, Trysorydd, Lowri Davies Banc Barclays, Ann Edwards Ambiwlans Awyr ac Eirian Morgan, Cadeirydd.

Cyflwynwyd siec am £500, elw'r Gystadleuaeth Gneifio Ryngwladol yn Fferm Capeli, i John Whitworth, Rheolwr Pwll Nofio Llambed gan Iwan Jenkins, Tyllwyd a John Williams, Capeli, a Ffion Jenkins yn y Cerddwr Dŵr.

Y Cynghorydd Eirwyn Williams yn cyflwyno siec am £800 i Gadeirydd a Thrysorydd Neuadd Bro Fana o Gronfa Prosiectau Lleol y Cyngor Sir.

Cyflwynodd Bob a Mary Jones, Derwen Fawr, Llambed £500 i Joy Waters, Cynorthwy-ydd Codi Arian Cymorth Cancr Macmillan. Dymuna Mr a Mrs Jones ddiolch i bawb am eu haelioni adeg eu priodas ddiamwnt.

Neuadd Eglwys Llanllwni

Agoriad Swyddogol Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni - Y Parchedig Bill Fillery, Mrs Nancy Jones gyda Siriol Howells, Alwyn Evans, Sioned Howells a Gwion Evans.

Cadeirydd Cyngor Sir Gâr y Cyng. Dewi Enoch yn edrych ar yr arddangosfeydd.

Astudio Llyfr y Degwm ar ddiwrnod yr agoriad swyddogol.

Creu cardiau gyda'r plant yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni.

Plant yn ymarfer corff yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni.

Owen Davies Brynmerau yn cyflwyno siec o £600 i aelodau'r gangen leol o Ymchwil y Cancr, arian a dderbyniodd yn lle anrhegion ar ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar.